# Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

# Cynllun Gweithredol 2005-06

## *Paratoi i 'Greu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd'*

## Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | 3 |
| 2.0 | Ein pwrpas a'n blaenoriaethau | 5 |
| 3.0 | Rhaglenni gweithredu a mesuryddion perfformiad | 8 |
| 4.0 | Materion ariannol | 19 |
| 5.0 | Adolygiad o Gynllun Gweithredol 2004-05 | 23 |


**Atodiadau**


| | |
|---|---|
| Atodiad A | Uchafbwyntiau'r Rhaglen Dysgu a Mynediad |
| Atodiad B | Y Rhaglen Ymchwil |
| Atodiad C | Y Rhaglen Arddangosfeydd |
| Atodiad D | Cynllun Gweithredu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe |

## 1.0 Rhagarweiniad

Mae Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) yn gorff siartredig annibynnol ac yn elusen gofrestredig. Fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) daw ei gyllid craidd ar ffurf cymorthdal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Cynllun Corfforaethol 2005-08 yn amlinellu'r ymrwymiadau sylfaenol o ran y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac yn rhoi fframwaith ar gyfer ein gwaith dros y tair blynedd nesaf. Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn cyfeirio at ein prif raglenni gwaith yn 2005-06. Ymhlith pethau eraill, mae'n canolbwyntio ar baratoi i roi ein Gweledigaeth ar waith ac i gydweithio â'n budd-ddeiliaid i '**Greu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd'.**

Mae hi'n gyfnod diddorol o ran cynllunio dyfodol y sefydliad. Yn ddiweddar, lansiwyd ein Gweledigaeth: **'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'** ac rydyn ni wrthi'n ymgynghori â'n budd-ddeiliaid ar y mater. Bydd canlyniadau'r broses o ymgynghori, cyfrannu ac ymrwymo'n bwydo'r Cynllun Corfforaethol nesaf, 2006-09. Bydd hyn yn cynnwys edrych ymlaen i'r deng mlynedd nesaf.

*Cefnogi amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru*

Pwrpas y cynllun hwn yw rhoi crynodeb o'n hamcanion a'n targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a dangos sut mae'r gweithgareddau hyn yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei hamcanion hithau. Mae tîm rheoli'r Amgueddfa yn mesur cynnydd yn erbyn targedau bob mis a phob chwarter a chaiff y mater ei adolygu gan y Cyngor (Bwrdd yr Ymddiriedolwyr) a Llywodraeth Cynulliad Cymru bob chwarter.

*Beth rydyn ni'n ei wneud*

Mae gwaith Amgueddfa Genedlaethol yn gymhleth ac rydyn ni wrthi drwy'r amser yn:

- Cyflwyno a defnyddio ein casgliadau at ddibenion addysg a dysgu gydol oes

- Ehangu'r casgliadau a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â nhw: cael eitemau trwy gasglu mewn ffordd briodol, prynu, rhoddion neu gymynroddion; a gwneud gwaith ymchwil perthnasol iddyn nhw.

- Enwi a dogfennu casgliadau newydd wrth iddynt ddod i'n meddiant, gwella'n cofnodion papur a'u trosglwyddo i systemau gwybodaeth cyfrifiadurol modern. Bydd hyn yn ein galluogi ni i wybod yn union beth sydd gennym ni, ble mae e, ac ym mha gyflwr y mae e. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i ni ateb cwestiynau a chaniatáu i bobl weld ein casgliadau.

- Cadw'r casgliadau o dan yr amodau mwyaf diogel a gorau posibl er mwyn atal neu arafu dirywiad yr holl ddefnyddiau. Mae'r gwaith yma'n

cynnwys monitro a gwella'r mannau storio yn barhaus gan nad yw llawer ohonynt yn addas i'r pwrpas am wahanol resymau hanesyddol.

- Gwarchod ac adfer eitemau y mae angen eu sefydlogi neu sy'n mynd i gael eu harddangos, fel eu bod yn addas i'w harddangos a'u defnyddio. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau dadansoddi a gwasanaethau labordy i helpu gyda'r gwaith.

- Agor ein hamgueddfeydd fel eu bod yn haws i'r cyhoedd fynd iddynt. Sicrhau trwy ein staff blaen t_ bod y casgliadau'n cael eu gwarchod yn ddigonol, bod y mannau arddangos yn ddiogel a bod y cyfleusterau o'r safon uchaf. Rydyn ni'n cydnabod hefyd ei bod yn bwysig hyrwyddo ein hamgueddfeydd a'n casgliadau.

- Ymchwilio i'r casgliadau a dehongli canlyniadau'r gwaith ymchwil trwy gatalogau, papurau, cyhoeddiadau poblogaidd, arddangosfeydd parhaol a dros dro yn ein hamgueddfeydd ac ar ein gwefan. Rydyn ni'n gwneud hyn er mwyn addysgu'r cyhoedd a chynnig gwybodaeth iddynt mewn ffordd sy'n ddifyr, yn cyfoethogi ac yn addysgu pawb.

## 2.0 Ein pwrpas a'n blaenoriaethau

Pwrpas elusennol gwaelodol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, fel a nodir yn y Siarter, yw hybu addysg y cyhoedd. Rydyn ni'n datblygu ein casgliadau, sy'n eiddo i bobl Cymru, yn gofalu amdanynt, yn eu hastudio ac yn annog pobl i'w gweld er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Yn ôl y Siarter (1907, diwygiwyd 1991) gwneir hyn:

*yn bennaf trwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynyddiaeth, s_oleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru ac yn gyffredinol trwy: gasglu, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau sydd o fudd neu ddiddordeb mewn cysylltiad â hynny a thrwy gasglu, diogelu, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau (gan gynnwys lluniau, engrafiadau, cerfluniaeth a phob gwaith celfyddyd gain o unrhyw fath) boed yn gysylltiedig â Chymru neu beidio a all helpu i hyrwyddo addysg a hybu ymchwil lenyddol a gwyddonol; a thrwy baratoi a chyhoeddi atgynyrchiadau, ffilmiau, tapiau a darluniadau eraill (o ba fath bynnag) o bob gwrthrych a pheth o'r math a nodwyd uchod.*

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ein trefniadau llywodraethu ac, fel rhan o'r broses, rydyn ni'n disgwyl cyflwyno Siarter ddiwygiedig i'r Comisiwn Elusennau a'r Cyfrin Gyngor ei hystyried yn 2005/06. Bydd yr adolygiad o'r drefn lywodraethu'n ceisio eglurhau swyddogaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r ffordd y gwneir penodiadau i'r Bwrdd.

Gellir addasu faint fynnir ar y wybodaeth sydd ynghlwm wrth y casgliadau er mwyn ymateb i'r ffordd y mae anghenion yn newid o ran chwilfrydedd y cyhoedd, blaenoriaethau ysgolheigion, diddordebau arbennig unigolion neu feysydd llafur ffurfiol byd addysg. Mae'r casgliadau cyfredol yn berthnasol i themâu modern fel hunaniaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yr amgylchedd yn ogystal â syniadau newydd ym maes celf gain. Caiff y rhain eu dehongli gan y bobl sy'n gofalu amdanynt, gan adrodd straeon di-ri am Gymru a'r byd.

Rydyn ni'n rhannu gweledigaeth gyffredin â'r corff sy'n ein noddi, Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth weithio i greu dyfodol cynaliadwy i Gymru. Yn ei chynllun strategol (*Cymru: Gwlad Well*) mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi bod ei blaenoriaethau sylfaenol yn cynnwys annog datblygiad cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hybu cyfleoedd cyfartal. Trwy annog pobl i ymweld ag amgueddfeydd fel rhan arferol o ddysgu, mae gennym ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a gwelliannau cymdeithasol. Trwy ein casgliadau a'n harbenigedd, rydyn ni mewn sefyllfa ddelfrydol i gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac i gefnogi'r gwaith o greu gwlad ddwyieithog. Rydyn ni'n credu'n gryf mewn rhoi lle amlwg i'r Gymraeg trwy ein gwaith ac yn cyhoeddi strategaeth prif-ffrydio ar gyfer AOCC ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredol hwn.

Yng ngweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ei thymor cyfredol yn ***Cymru: Gwlad Well*** rhoddir blaenoriaeth i sicrhau pedwar peth: helpu rhagor o bobl i gael swyddi; gwella iechyd; datblygu cymunedau cryf a

diogel; a chreu gwell swyddi a sgiliau. Yn Llythyr Gorchwyl AOCC ar gyfer 2005/06, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod gan AOCC ran bwysig i'w chwarae trwy ddatblygu rhaglenni sy'n cefnogi blaenoriaethau sylfaenol ***Cymru: Gwlad Well***, ac yn enwedig mewn perthynas â'r flaenoriaeth ***'datblygu cymunedau cryf a diogel'.***

Mae Tabl 1 yn amlinellu sut cefnogodd AOCC Gynllun Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i pholisïau sylfaenol yn 2004-05 a sut rydyn ni'n cydweithio â Chyrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan y Cynulliad i gyflawni'r amcanion hyn. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn ni hefyd yn cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Gofodol Cymru a'r Cynllun Gweithredu ar Ddatblygu Cynaliadwy; yn cefnogi'r awdurdodau lleol wrth gyflawni eu Strategaethau Cymunedol ac yn gweithio gyda Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf lle bo modd i gyflawni eu Cynlluniau Gweithredu Cymunedol.

Bydd ***'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'***, sef y Weledigaeth rydyn ni'n ymgynghori â'n budd-ddeiliaid yn ei chylch ar hyn o bryd, yn pennu fframwaith deng mlynedd a mwy ar gyfer ein gwaith cynllunio strategol. Felly rydyn ni'n disgwyl y bydd patrwm a chynnwys y drafft nesaf o'n Cynllun Corfforaethol yn wahanol, er mwyn paratoi i roi'r Weledigaeth ar waith o 2006 ymlaen.

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn canolbwyntio ar gyfnod o baratoi ar gyfer ***'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'***. Mae'n ymdrin â phum mater strategol a fu'n fframwaith i'n dogfennau cynllunio ac sydd wedi diffinio'n perthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Caiff y Materion Strategol hyn eu cyflawni trwy amcanion craidd tymor hir. Cânt eu mesur gan ddangosyddion perfformiad, a'u cefnogi gan amcanion newid tymor byr sy'n cael eu monitro bob chwarter.

## Materion Strategol AOCC

**Mater Strategol 1:** Rhaid i ni sicrhau bod cydnabyddiaeth eang bod yr hyn a gynigiwn yn berthnasol i anghenion cymdeithas gynhwysol

**Mater Strategol 2:** Rhaid i ni barhau i wneud ein casgliadau a'r wybodaeth sydd ynghlwm wrthynt yn fwyfwy hygyrch

**Mater Strategol 3:** Rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n gallu gofalu'n iawn am y casgliadau a'r ystadau a ymddiriedwyd i'n gofal

**Mater Strategol 4:** Rhaid i ni hybu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant meddwl-agored o fewn y sefydliad

**Mater Strategol 5:** Rhaid i ni wella ein sail ariannu er mwyn ein galluogi ni i gyflawni ein blaenoriaethau

## Tabl 1 Sut cefnogodd AOCC Gynllun Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i bolisïau sylfaenol yn 2004-05

| | |
|---|---|
| **Dysgu Byw'n Wahanol** | |
| Defnyddio adnoddau o raglenni Ewropeaidd gan gynnwys Amcan Un mewn ffyrdd sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy, yn hyrwyddo partneriaethau lleol dilys ac yn datblygu'r economi cymdeithasol. | Mae ein Strategaeth ar gyfer Diwydiant wedi golygu y bu modd buddsoddi £40m i ddathlu Treftadaeth Ddiwydiannol Cymru mewn ardaloedd Amcan 1. Fel rhan o'r strategaeth, parhawyd â'r gwaith o adeiladu a dodrefnu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe a fydd yn agor yn 2005. |
| **Cymru Greadigol** | |
| Adolygu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes mewn pynciau diwylliannol trwy addysg ffurfiol a mentrau cymunedol | Yn ogystal ag ymwneud â dros 200,000 o ymwelwyr mewn grwpiau addysg ffurfiol, bu 150,000 o ymwelwyr eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol 'gwerth ychwanegol'. Ar ben hynny, bu i ni gynnig gweithgareddau addysgol i dros 175,000 o bobl y tu allan i safleoedd ein Hamgueddfeydd. |
| Adolygu ymarferoldeb cael mwy o lefydd arddangos da ledled Cymru | Mewn ymgynghoriad â Chyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, bu i ni gytuno ar strategaeth i adolygu'r opsiynau ar gyfer arddangos gweithiau celf. |
| Datblygu polisïau ar gelfyddyd gyhoeddus | Rydyn ni wedi parhau i gydweithio â Chywaith Cymru ar strategaeth celfyddyd gyhoeddus ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe. |
| Adolygu'r dewisiadau ar gyfer creu un lle cynhwysfawr i roi gorolwg o Hanes Cymru. | Fel rhan o'r broses o wireddu'n Gweledigaeth '**Creu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd**' rydyn ni wedi ystyried y posibilrwydd o greu amgueddfa o wahanol bobloedd a gwahanol fathau o hanes Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru trwy symud yr arddangosfeydd Archaeolegol yno, ailddatblygu'r orielau, ac ail-ddehongli'r adeiladau a ailgodwyd ar y safle. Mae ein budd-ddeiliaid a'r cyhoedd yn ystyried y syniad yma ar hyn o bryd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Weledigaeth. |
| Datblygu Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol | Fel rhan o'n cyfraniad at gryfhau economi Cymru, rydyn ni wedi parhau i chwarae rhan allweddol mewn dwy fenter bwysig i wneud Cymru'n gyrchfan ryngwladol i dwristiaid diwylliannol: menter Herian a Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru. Menter adfywio economaidd sy'n canolbwyntio ar y dreftadaeth ddiwylliannol yw menter Herian (Treftadaeth ar Waith). Fe'i cefnogir gan bartneriaeth eang o gyrff cyhoeddus cenedlaethol ac awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol a'r sector preifat yn ne Cymru. Trwy ddatblygu Pyrth Twristiaeth Ddiwylliannol ac 'arwyddbyst'. Gallwn ni barhau i gydweithio'n agos â Bwrdd Croeso Cymru i sicrhau bod ei Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol yn creu cyfleoedd i rannu manteision mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd â'n horielau â'r diwydiant twristiaeth ehangach yng Nghymru.<br>Dynodwyd y Pwll Mawr ac Amgueddfa Lechi Cymru yn 'Angorbwyntiau' ar gyfer Llwybrau Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop yng Nghymru. |
| Mynediad am ddim i amgueddfeydd | Yn ystod 2004-05, sef y bedwaredd flwyddyn i ni gynnig mynediad am ddim gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, cafwyd dros 1.25 miliwn o ymweliadau â'n Hamgueddfeydd, dros 65% yn uwch na'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf yr oeddem yn codi tâl, sef 2000-01. |
| Hybu gweithgareddau diwylliannol | Rydyn ni wedi datblygu nifer o weithgareddau llwyddiannus i annog ac adlewyrchu gwahanol gymunedau ethnig Cymru, gan gynnwys ein G_yl Cymru a'r Byd. |

| | |
|---|---|
| **Iaith Pawb** | |
| Prif-ffrydio'r Gymraeg | Rydyn ni wedi cychwyn gweithredu'n Strategaeth i Brif-ffrydio'r Gymraeg a fydd yn sicrhau bod asesu effaith bosibl ein gweithgareddau ar 'iechyd' yr iaith ac ar hawliau a lles siaradwyr Cymraeg yn rhan hanfodol o'n hethos a datblygiad ein polisïau - ochr yn ochr â materion eraill a gaiff eu 'prif-ffrydio' fel cyfleoedd cyfartal, cydraddoldeb hiliol a chynaliadwyedd. |
| Twristiaeth | Buon ni'n cydweithio'n agos â Bwrdd Croeso Cymru i) i sicrhau bod y Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol yn creu cyfleoedd i hybu diwylliant dwyieithog Cymru a ii) i ddatblygu Amgueddfa Werin Cymru fel Porth Twristiaeth Ddiwylliannol allweddol. |
| Rhaglen hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg | Mewn cydweithrediad ag ELWa, rydyn ni wedi lansio a datblygu cynllun Llwybrau Llafar i alluogi oedolion i ddysgu am hanes a diwylliant trwy Amgueddfa Werin Cymru gan loywi eu Cymraeg ar yr un pryd. |
| **Cynlluniau yn y Sector Gwirfoddol** | |
| Creu cymdeithas sifil sy'n gynhwysol ac sy'n galluogi pobl i gymryd rhan yn ei holl weithgareddau economaidd a chymdeithasol | Byddwn ni'n adeiladu ar lwyddiant cynllun peilot Ar Dir Cyffredin i gynnal menter dwy flynedd mewn pum cymuned ledled Cymru (Caerffili, Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Cheredigion). Bydd Ar Dir Cyffredin 2 yn annog pobl ifanc i ystyried agweddau ar eu treftadaeth ddiwylliannol a chreu gwaith project o safon uchel mewn cyfrwng o'u dewis, gan feithrin sgiliau a chael eu hachredu. Bydd hyn yn eu galluogi i symud ymlaen i fathau eraill o addysg a / neu waith. |
| **Gwneud Cysylltiadau** | |
| | Rydyn ni'n dal i gydweithio â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i asesu sut y gall y ddau gorff fod yn fwy effeithiol trwy gydweithio mwy o ran eu swyddogaethau cymorth. |

## 3.0 Rhaglenni Gweithredu a Mesuryddion Perfformiad

### 3.1 Mater Strategol 1: Rhaid i ni sicrhau bod cydnabyddiaeth eang bod yr hyn a gynigiwn yn berthnasol i anghenion cymdeithas gynhwysol

### Amcanion Craidd

3.1.1 Cyrraedd cynulleidfaoedd mwy amrywiol gan gynnwys grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ymhlith ein hymwelwyr, ac ymrwymo grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at agenda ehangach cynhwysiad cymdeithasol.

3.1.2 Sicrhau bod ein swyddogaeth ganolog o ran deall treftadaeth a diwylliant Cymru a'i hamgylchedd naturiol yn cael ei chydnabod a'i pharchu yng Nghymru a'r tu hwnt.

3.1.3 Rhoi arweiniad addysgol trwy hybu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy gyfleoedd dysgu gydol oes. Rydyn ni wedi amlinellu amrediad a chwmpas ein gweithgareddau yn Atodiad A – Y Rhaglen Dysgu a Mynediad.

| Dangosydd Perfformiad | 2002-03 canlyniad | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | 2005-06 targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr ymwelwyr | 1,278,449 | 1,222,206 | 1,250,000 | 1,318,486 | **1,400,000** [d] |
| Nifer yr ymwelwyr mewn grwpiau addysg | 205,956a<br>158,601[b] | 214,377a<br>161,843[b] | 209,000[a]<br>156,000[b] | 217,231 [a]<br>167,854 [b] | **238,000** [a,d]<br>**176,000** [b,d] |
| % yr ymwelwyr cyffredinol o grwpiau o dan anfantais gymdeithasol | 37% | 32% | 38% | Dim ffigwr ar gael | **38%** |
| % y casgliadau a ddehonglir trwy gyfryngau electronig | 12.2% | 12.3% | 13% [c] | 12.7% | **15.9%** [c] |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 541,265 | 719,144 | 826,000 | 961,534 | **1,000,000** |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan sy'n para dros 10 munud | 42,970 | 55,957 | 64,000 | 116,762 | **100,000** |

[a] addysg ffurfiol
[b] addysg anffurfiol
[c] ar sail maint y casgliad oedd yn addas i'w gadw'n electronig – 4,100,000
[d] mae'r targed yn adlewyrchu'r cynnydd a ddisgwylir yn y niferoedd pan fydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau'n agor yn yr Haf 2005

### Amcanion newid ar gyfer 2004-05

3.1.4 Cyfrannu at nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu gwlad ddwyieithog fel y'i disgrifir yn *Iaith Pawb*: *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* trwy roi ein Strategaeth Brif-ffrydio ar waith i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael sylw wrth gynllunio'n corfforaethol ac wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel.

3.1.5 Defnyddio ymgyrch lansio'r Weledigaeth, '***Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd***' i ddatblygu Strategaeth Gyfathrebu newydd er mwyn tynnu sylw at ein hamgueddfeydd fel canolfannau dysgu ac atyniadau ymwelwyr o safon ryngwladol.

3.1.6 Cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y'i hamlinellir yn *Cymru: Gwlad Well* (a'i strategaethau cysylltiedig) trwy ddyfnhau ac ehangu mynediad i'r casgliadau fel a ganlyn:

- Ymateb i ganfyddiadau allweddol yr Adolygiad allanol ar Farchnata allanol a gynhaliwyd yn 2004-05 trwy:
    - ddiffinio'r amcanion cyffredinol ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd mewn perthynas â ***'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'***, demograffeg dalgylchoedd, perfformiad blaenorol, datblygu cynnyrch a thwy strategaeth segmentu;
    - diffinio'r cysylltiadau rhwng Marchnata, Cysylltiadau Cyhoeddus, Addysg a Gweithredu, ac ystyried y potensial ar gyfer integreiddio'r rhain i gyd, neu rai ohonynt, yn ffurfiol neu'n anffurfiol;
    - creu Cynllun Gweithredu Datblygu Cynulleidfaoedd i gefnogi Cynllun Corfforaethol AOCC 2006/07-2008/09; a
- Cwblhau a defnyddio canfyddiadau ac ymatebion yr ymgynghoriad cychwynnol ar ***'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'*** i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer y tair blynedd nesaf, cynlluniau amlinellol ar gyfer y deng mlynedd nesaf ac i sefydlu trefniadau ar gyfer ymgynghori o hyn ymlaen.
- Defnyddio ymgynghoriad ***'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'*** i'n helpu i ailddiffinio fframwaith ein delwedd a'n brand er mwyn sicrhau eglurdeb o ran ein swyddogaeth fel sefydliad dysgu a sut y dylem gyfleu gwahanol bersonoliaethau'r amgueddfeydd unigol mewn ffordd gliriach.
- Adeiladu ar lwyddiant y cynllun peilot Ar Dir Cyffredin i drefnu menter dwy flynedd mewn pum cymuned – Caerffili, Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Cheredigion, gan gydweithio â Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf lle bo hynny'n briodol. Bydd Ar Dir Cyffredin 2 yn annog pobl ifanc i ystyried agweddau ar eu treftadaeth ddiwylliannol a chreu gwaith project o safon uchel, gan

feithrin sgiliau a chael eu hachredu'r un pryd. Bydd hyn yn eu galluogi i symud ymlaen i fathau eraill o addysg a / neu waith.

- Adeiladu ar y partneriaethau sy'n bodoli rhwng yr holl safleoedd a'u cymunedau, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaethau Cymunedol yr awdurdodau lleol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn sicrhau cysylltiadau parhaol a manteision economaidd. Yn arbennig:

    - hwyluso gwaith Fforwm Twristiaeth Caerllion a chydweithio â phartneriaid i greu taith rithwir o gwmpas tref hanesyddol Caerllion;

    - parhau i hwyluso gwaith partneriaeth Fforwm Padarn a'i is-gr_p, Partneriaeth Llanberis, i hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan i ymwelwyr;

    - arwain Gr_p Partneriaeth Llanberis: Cynllun Dehongli Cymunedol;

    - ymdrechu i ddatblygu'r berthynas sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng amgueddfeydd AOCC yng Nghaerdydd a Chyngor Sir Caerdydd; a

    - pharhau i adeiladu ar y berthynas gref a grewyd gyda Dinas a Sir Abertawe wrth greu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

3.1.7 Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan y Cynulliad i gyflawni strategaethau ym meysydd y celfyddydau, diwylliant a thwristiaeth, gan gyfrannu at y Bwrdd Diwylliant newydd a Chymru'n Creu, adeiladu ar ein perthynas gyda CyMAL ac ehangu'n dylanwad trwy estyn allan i'r sector ehangach.

3.1.8 Parhau i wneud gwelliannau i'n hamgueddfeydd i'w gwneud yn haws i bobl fynd a dod yno. Yn arbennig:

- ceisio'r caniatâd adeilad rhestredig angenrheidiol a gosod mynedfa awtomataidd yn nrws ffrynt yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol;

- datblygu cynlluniau i'w gwneud hyd yn oed yn haws mynd a dod yn Amgueddfa Werin Cymru; a

- threialu digwyddiadau gydag iaith arwyddion ar gyfer pobl fyddar; datblygu teithiau sain ac arwyddion arbennig ar gyfer ymwelwyr sy'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg.

3.1.9 Datblygu mentrau mynediad ac amrywiaeth ledled yr Amgueddfa, gan elwa ar wybodaeth a geir trwy bartneriaethau â'r sector gwirfoddol a'u cyflawni trwy waith timau staff a'r Swyddog Adnoddau Dynol a

Mynediad/Amrywiaeth. Cychwyn projectau sy'n cynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig trwy'r _yl Diwylliannau Moslemaidd, cydweithio â BEN (Black Environmental Network) yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig a Rhaglen Allestyn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

## 3.2 Mater Strategol 2: Rhaid i ni barhau i wneud ein casgliadau a'r wybodaeth sydd ynghlwm wrthynt yn fwyfwy hygyrch

### Amcanion Craidd

3.2.1 Sicrhau bod y gynulleidfa ehangaf bosibl yn gallu elwa ar ein hamgueddfeydd, ein casgliadau a'n gwaith. Rydyn ni wedi amlinellu amrediad a chwmpas ein rhaglenni Dysgu a Mynediad ac Arddangosfeydd yn Atodiadau A ac C yn y drefn honno.

3.2.2 Defnyddio ein casgliadau amrywiol fel sylfaen ar gyfer gwaith ymchwil ysgolheigaidd. Rydyn ni wedi amlinellu amrediad a chwmpas ein gweithgareddau ymchwil yn Atodiad B.

| Dangosydd Perfformiad | 2002-03 canlyniad | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | 2005-06 targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymholiadau am y casgliadau | 23,334 | 22,873 | 21,000 | 22,196 | **22,000** |
| Nifer y projectau ymchwil | 63 | 79 | 75 | 101 | **80** |
| Nifer y bobl a gymrodd ran mewn gweithgareddau oddi ar y safle e.e. darlithoedd | 153,184 | 221,814 | 185,000 | 207,085 | **185,000** |
| Nifer y llefydd y benthycwyd eitemau iddynt | 355 | 367 | 340 | 366 | **350** |

### Amcanion Newid

3.2.3 Datblygu a chyflawni cynllun gweithredu yn unol â'r Polisi Dysgu a Mynediad a ddatblygwyd yn ddiweddar a sefydlu dulliau gwerthuso addas. Mae Atodiad A yn nodi uchafbwyntiau'r Rhaglen Dysgu a Mynediad ar gyfer 2005/06.

3.2.4 Datblygu cynlluniau i greu Amgueddfa Rithwir a fydd yn ymestyn pwrpas a gwerthoedd Amgueddfa Genedlaethol Cymru i gynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang, ac yn adfer ymdeimlad o berchnogaeth i gymunedau sydd wedi cyfrannu eitemau at gasgliadau'r Amgueddfa.

3.2.5 Datblygu effaith y gweithgareddau a gyflawnwn mewn Partneriaethau a'r sylw a roddir iddynt:

- Cefnogi arddangosfeydd a drefnir mewn partneriaeth yn 2005/06 a chydweithio â CyMAL i adolygu rhaglen bartneriaeth Cyfoeth Cymru

Gyfan”. Paratoi canllawiau diwygiedig ar gyfer cylch ariannu nesaf CyMAL er mwyn cynnwys rhagor o leoliadau partner.

- Cychwyn a hyrwyddo partneriaid yr Oriel Genedlaethol yn y celfyddydau gweledol mewn pum canolfan ledled Cymru trwy raglen o weithgareddau, gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Esmee Fairbairn ac mewn ymgynghoriad â Chyngor Celfyddydau Cymru.

- Gweithio i gefnogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru i fanteisio i’r eithaf ar y bartneriaeth i greu oriel ddigidol genedlaethol ar gyfer casgliad Cymru o’r celfyddydau gweledol.

- Parhau i gydweithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (APCASB) yn eu hymdrechion i greu cartref yn Nhyddewi ar gyfer arddangosiadau o Gasgliad Sutherland trwy ddatblygu canolfan i ddehongli celfyddyd a thirwedd yr ardal.

- Helpu Cyngor Sir Caerdydd i weithredu ei gynlluniau i gynnal rhaglen i ddathlu canmlwyddiant Caerdydd fel dinas a’i hanner-canmlwyddiant fel prifddinas.

- Parhau i gymryd rhan mewn gwahanol raglenni partneriaeth ym maes gwyddoniaeth gan gynnwys:

    - *HabMap (INTERREG/CCGC)* sy’n golygu mapio cynefinoedd ar gyfer gwaith cadwraeth a rheolaeth yn ne Môr Iwerddon;

    - MESH (JNCC/INTERREG), project sy’n mapio gwelyau moroedd Ewrop;

    - cynllun tair blynedd i ymchwilio i ffawna a geoffiseg gwely Môr Hafren mewn partneriaeth ag Arolwg Daearegol Prydain; a

    - chydweithio ag Arolwg Daearegol Prydain i fapio caeau yng Ngheredigion.

- Parhau i gyfrannu at ddatblygiad Safle Treftadaeth Byd Blaenafon a chydweithio â phartneriaid eraill i wella'r gwaith dehongli ac i fanteisio mwy ar botensial economaidd yr ardal dreftadaeth hon;

- Yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol Dre-fach Felindre, ailsefydlu’r fforwm twristiaeth lleol a chydweithio â phartneriaid eraill ym maes twristiaeth. Cydweithio â’r Gr_p Gweithredu Cymunedol lleol i ddatblygu gwaith dehongli’r ardal.

3.2.6 Cwblhau’r gwaith o gyflawni strategaeth ddiwydiant AOCC trwy agor Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn 2005. (Gwelir Cynllun Gweithredu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe yn Atodiad D).

3.2.7 Buddsoddi i wella profiad ymwelwyr, gan ganolbwyntio ar Amgueddfa Werin Cymru a'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. A ninnau wedi buddsoddi yn y Strategaeth Ddiwydiant yn Amgueddfa Lechi Cymru, Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol, ac am y caiff Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ei chwblhau eleni, rhaid i ni ganolbwyntio ar yr Amgueddfeydd lle mae angen buddsoddiad a gwaith cynnal-a-chadw.

Yn ystod 2005-06:

- yn Amgueddfa Werin Cymru byddwn ni'n
    - cyflymu'r rhaglen fuddsoddi yn seilwaith y safle er mwyn ymateb i effeithiau'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a chynnig gwell profiad i'r ymwelwyr;
    - gwella adeiladwaith ac amodau amgylcheddol yr Oriel Diwylliant Materol er mwyn creu man arddangos hyblyg iawn a ddefnyddir i ystyried hunaniaeth;
    - ei gwneud yn haws i ymwelwyr ffeindio'u ffordd o gwmpas y safle;
    - ail-lansio'r T_ ar gyfer y Dyfodol fel y T_ Gwyrdd, gan gynnwys arddangosfeydd dehongliadol a fydd yn canolbwyntio ar fyw bywyd cynaliadwy;
    - cwblhau adeiladwaith Eglwys Llandeilo Tal-y-bont, yn tirlunio'r tir o'i chwmpas ac yn parhau â gwaith y bydd y cyhoedd yn ei weld y tu mewn i'r eglwys;
    - gorffen adfer y tai gwydr hanesyddol ar dir y Castell;
    - dechrau ailgodi T_ Masnachwr canoloesol o Hwlffordd;
    - gwella cyfleusterau chwarae a chyfleusterau addysgol y safle; ac
    - yn gwneud gwelliannau eraill trwy'r Rhaglen Gofal am Gasgliadau a Mynediad Iddynt (gweler 3.3.4)
- yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol byddwn ni'n
    - datblygu cynlluniau i symud arddangosfeydd hen ffasiwn o loriau uchaf yr Adain Orllewinol er mwyn paratoi i gyflwyno arddangosiadau hyblyg;
    - gwella'r arwyddion allanol;

- gwella'r ffordd y mae'r arddangosfeydd serameg yn cael eu harddangos yn y Brif Neuadd;

- symud y Llysieufa Genedlaethol; ac yn

- gwneud gwelliannau eraill trwy'r Rhaglen Gofal am Gasgliadau a Mynediad Iddynt (gweler 3.3.4)

3.2.8 Cyhoeddi a datblygu cynigion a chostau ar gyfer cyflawni argymhellion yr astudiaeth gwmpasu a'r asesiad o'r opsiynau ar arddangos gweithiau celfyddyd o hyn ymlaen ar ôl gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ôl gorffen yr astudiaeth gwmpasu, penderfynu ar gynigion a chostau a'u paratoi i'w cynnig fel dewisiadau o ran y camau nesaf erbyn mis Medi 2005.

## 3.3 Mater Strategol 3: Rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n gallu gofalu'n iawn am y casgliadau a'r stadau a ymddiriedwyd i'n gofal

### Amcanion Craidd

3.3.1 Ymchwilio i sbesimenau ac eitemau, a dewis a chaffael rhai sy'n sicrhau ein bod ni'n adeiladu ac yn datblygu casgliadau'r genedl yn ôl ein Siarter, yn unol â phwyslais **'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'** ac mewn dull sy'n gynaliadwy o ystyried yr adnoddau sydd ar gael i ni.

3.3.2 Gwella ein safonau stiwardiaeth er mwyn gofalu am gasgliadau newydd a rhai sydd gennym eisoes, eu dogfennu, eu gwarchod a sicrhau mynediad iddynt mewn ffordd sy'n addas ar gyfer amgueddfa genedlaethol yn yr 21ain ganrif.

3.3.3 Amddiffyn iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr yn unol â'r gofynion statudol perthnasol a'r arferion gorau.

| Dangosydd Perfformiad | 2002-03 canlyniad | 2003-04 canlyniad | 2004-05 Targed | 2004-05 canlyniad | 2005-06 targed |
|---|---|---|---|---|---|
| % y casgliadau sydd ar restr eiddo ar gyfrifiadur [a] | 33.4% | 36% | 40% | 42.3% | **44%** |
| % o'r casgliadau sydd wedi'u catalogio [b] | 19.3% | 20.4% | 22.5% | 23.4% | **26%** |

[a] Ar sail casgliad o gyfanswm o 4,700,000 o eitemau. Mae cofnodion lefel rhestr eiddo yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol sy'n golygu y gellir adnabod a lleoli eitem e.e. rhif derbyn; teitl neu enw'r eitem; lleoliad; statws – benthyciad, wedi'i brynu, rhodd ac ati

[b] Ar sail casgliad o gyfanswm o 4,700,000 o eitemau. Bydd gan gofnodion lefel catalog yr holl wybodaeth a geir mewn cofnod lefel rhestr eiddo ond byddant hefyd yn cynnwys data academaidd fel cyfeiriadau at gyhoeddiadau

### Amcanion Newid

3.3.4 Gwella cyfleusterau storio trwy'r Amgueddfa i gyd fel sylfaen hanfodol ar gyfer gwella mynediad i'r casgliadau. Eleni, bydd y Project Gofal am Gasgliadau a Mynediad Atynt yn:

- Adnewyddu Storfa'r Llofft Batrymau yn Amgueddfa Lechi Cymru.
- Creu Ardal Allestyn yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol.
- Codi cragen yr estyniad yn y Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw.
- Cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri i godi dau adeilad storio newydd a fydd ar agor i'r cyhoedd yn Amgueddfa Werin Cymru.

3.3.5 Gweithredu ar argymhellion yr adolygiadau o'r Gwaith Rheoli a Gwarchod Casgliadau, yn benodol trwy gyflogi Ceidwad cadwraeth, ac adolygu'r blaenoriaethau ar gyfer dogfennu'r casgliadau'n gyfrifiadurol.

3.3.6 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar ein Gweledigaeth, cynnal adolygiad pum-mlynedd o Bolisïau Casglu fel sy'n ofynnol i gadw statws AOCC fel Amgueddfa Gofrestredig, a chychwyn asesu'r anghenion casglu o hyn ymlaen fel y gallwn fodloni'r gofynion a ddaw o broses gweithredu'r Weledigaeth.

3.3.7 Paratoi a gweithredu rhaglen waith fesul tipyn erbyn yr Haf 2005 i fynd i'r afael â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ac yn Amgueddfa Werin Cymru o 2005-06 tan 2007-08.

3.3.8 Cefnogi Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy:

- Lansio Polisi Datblygu Cynaliadwy ar draws AOCC;
- Datblygu cynlluniau gweithredu mewn meysydd allweddol i brif-ffrydio Datblygu Cynaliadwy ac i lywio'r gwaith o weithredu'r polisi Datblygu Cynaliadwy ar draws AOCC;
- Cwblhau archwiliadau i asesu cynaliadwyedd amgylcheddol safleoedd ac ennill tystysgrif y Ddraig Werdd ar gyfer pob safle;
- Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru, fforwm MAGEC o Amgueddfeydd Cenedlaethol a chyrff amgylcheddol eraill i weithredu ein Polisi Datblygu Cynaliadwy;
- Cefnogi'r gwaith o greu Fforwm Cynaliadwyedd ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC), a gaiff ei redeg gan gr_p o CCNC, er mwyn trafod materion yn ymwneud â Datblygu Cynaliadwy.

3.3.9 Datblygu Cynllun Amcanion Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn ei blwyddyn gyntaf a chytuno ar y trefniadau gweinyddol sydd eu hangen i gynnal Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe ar ôl ei hadeiladu a'i dodrefnu. (Gweler Atodiad D).

## 3.4 Mater Strategol 4: Rhaid i ni hybu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant meddwl-agored o fewn y sefydliad

### Amcanion Craidd

3.4.1 Buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu ein staff fel eu bod yn fwyfwy ymroddedig ac effeithlon a'u bod yn cael eu hysgogi gan lwyddiant corfforaethol AOCC a gan yr hyn y maen nhw eu hunain yn ei gyflawni wrth gyfrannu at y llwyddiant hwnnw.

| Dangosydd Perfformiad | 2002-03 canlyniad | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | 2005-06 targed |
|---|---|---|---|---|---|
| % o amser a gollwyd oherwydd salwch | 4.1% | 3.66% | 3.8% | 3.57% | **3.7%** |

### Amcanion Newid

3.4.2 Yn dilyn y broses ymgynghori ar y weledigaeth, byddwn ni'n cyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol a fydd yn cynnwys cynlluniau manwl am dair blynedd a chynlluniau amlinellol am saith mlynedd arall fel fframwaith dangosol o'n gwaith a'n datblygiad dros y deng mlynedd nesaf, i'n canmlwyddiant a'r tu hwnt. Bydd hyn yn ein galluogi ni i sefydlu fframwaith ar gyfer y blaenoriaethau strategol o ran defnyddio adnoddau.

3.4.3 Ailfodelu'r broses Cynllunio Gweithredol fel y gellir ailasesu'n blaenoriaethau yn unol â'r Weledigaeth a sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu dyrannu'n briodol.

3.4.4 Parhau i gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Elusennau i sicrhau bod y trefniadau llywodraethol yn well ac yn briodol, yn enwedig mewn perthynas â phenodi Aelodau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr), a bod gennym fecanwaith ymgynghorol i olynu Llys y Llywodraethwyr. Cwblhau newidiadau i'r Siarter Frenhinol a'i mabwysiadu cyn gynted ag y ceir cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau a'r Cyfrin Gyngor.

3.4.5 Datblygu rhaglen i sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant digonol a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol wrth iddynt weithio i gyflawni'r Weledigaeth newydd ***'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'***. Yn benodol, sicrhau statws Buddsoddwyr mewn Pobl yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig a phenderfynu pa safle fydd y nesaf i gael ei ystyried ar gyfer y dyfarniad hwn.

3.4.6 Datblygu diwylliant a methodoleg ar gyfer monitro a gwerthuso ein rhaglenni datblygu cynulleidfaoedd yn rheolaidd.

## 3.5 Mater Strategol 5: Rhaid i ni wella ein sail ariannu er mwyn ein galluogi ni i gyflawni ein blaenoriaethau

### Amcanion Craidd

3.5.1 Defnyddio'n holl adnoddau'n effeithiol, mewn ffordd greadigol ac yn ddoeth y tu mewn i fframwaith rheoli risg.

3.5.2 Sicrhau bod ein gweithgareddau creu incwm mor broffidiol â phosibl er mwyn gwella'n perfformiad eto

| Dangosydd Perfformiad | 2002-03 canlyniad | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | 2005-06 targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhorthdal grant[a] am bob ymwelydd | £13.96 | £15.36 | £16.10 | £16.15 | £18.52 |
| Cymhorthdal grant[a] am bob defnyddiwr[b] | £11.92 | £12.33 | £13.24 | £12.80 | £14.87 |
| Incwm net a gynhyrchwyd gan AOCC ei hun[c] fel % o'r gwariant net ar weithredu[d] | 7.3% | 7.4% | 6.7% | 7.5% | 8.5% |
| Y cymhorthdal grant refeniw fel cyfran o'r gwariant gweithredu net | 92% | 92.6% | 93.3% | 95% | 90.2% |

[a] ffigwr gros sy'n cynnwys yr holl gymorth grant (refeniw, cyfalaf a phrynu sbesimenau), ond nid yw'n cynnwys yr arian a dynnwyd i lawr ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe;
[b] nifer y defnyddwyr = nifer yr ymwelwyr + pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle + ymweliadau â'r wefan sy'n para dros 10 munud + nifer yr ymholiadau am y casgliadau;
[c] nid yw'n cynnwys cyfraniadau ar gyfer projectau cyfalaf penodedig ar gyfer adeiladu a phrynu sbesimenau; llog banc;
[d] gwariant gweithredu net = cyfanswm y gwariant gweithredu - costau ymylol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r weithgaredd e.e. cyflogau staff y siopau;

### Amcanion Newid

3.5.3 Adolygu trefniadau pensiwn yr Amgueddfa gan symud ymlaen â chamau i ddatblygu cynllun tymor hir i leihau diffyg y cynllun pensiwn gan ei alluogi i fodloni'r gofynion cyfreithiol tymor byr yr un pryd.

3.5.4 Sicrhau y gellir creu cymaint o incwm ag y bo modd o ffynonellau masnachol trwy:

- Ddatblygu gweithgareddau'r cwmni masnachu a chytuno ar dargedau ar gyfer y Cwmni.
- Cydweithio â'r adrannau Datblygu Cynulleidfaoedd er mwyn sicrhau mwy o gydweithrediad (gweler 3.1.6)

- Sefydlu Bwrdd Datblygu i alluogi'r sefydliad i ddatblygu ei rwydwaith o gefnogwyr trwy chwilio am gyfranwyr ar lefel briodol o uchel, cynnal gweithgareddau codi arian cydradd-i-gydradd ar gyfer projectau penodol a chydweithio â'r Adran Ddatblygu i gyflawni'r amcanion o ran codi arian.

3.5.5 Cydweithio â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i adolygu swyddogaethau 'swyddfa gefn' er mwyn penderfynu ar fesurau effeithlonrwydd a'u cyflawni fel rhan o agenda 'Gwneud y Cysylltiadau' Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 4.0 Materion Ariannol

### 4.1 Cyfrif Incwm a Gwariant

| | 2004-05 | 2005-06 |
|---|---|---|
| **INCWM** | **£000** | **£000** |
| Grant: | | |
| Grant Refeniw | 18,270 | 19,683 |
| Grant cynnal cyfalaf | 775 | 775 |
| Dyraniad cyfalaf ar gyfer projectau arbennig | 500_ | 3,500_ |
| Grant Prynu Sbesimenau | 1,075 | 1,075 |
| Trosglwyddo o'r Cwmni Masnachu | | |
| - Costau a ailgodwyd | 157 | 157 |
| - Elw i'w drosglwyddo | 210 | 321 |
| Incwm Arall | 694 | 1,104 |
| Cyllid Preifat_ | 256 | 305 |
| Arian a ddygwyd ymlaen o 2004-05 | | |
| Wedi'i glustnodi | 200 | 689 |
| Cyffredinol | 229 | 356 |
| **CYFANSWM YR INCWM** | **22,366** | 28,284 |
| | | |
| **GWARIANT** | | |
| Refeniw: | | |
| Cyflogau (heb gynnwys costau uniongyrchol y Cwmni Masnachu) | 15,161 | 17,002 |
| Costau gweithredu (heb gynnwys costau uniongyrchol y Cwmni Masnachu) | 4,599 | 5,366 |
| Cyfalaf: *manylion yn Nhabl 2* | 775 | 775 |
| Dyraniad cyfalaf ar gyfer projectau arbennig | 500_ | 3,500_ |
| Prynu Sbesimenau | 1,075 | 1,075 |
| Yr Adran Ddatblygu o Gyllid Preifat | 206 | 215 |
| Gwariant Arall o Gyllid Preifat | 50 | 90 |
| Cynllunio Cyfalaf | 0 | 261 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **22,366** | **28,284** |

## Nodiadau

_ Tynnwyd £500k i lawr i ddatblygu'r cynllun a fydd yn sicrhau gwell gofal i'n casgliadau a gwell mynediad iddynt.
_ Yn cynnwys £3.0m a dynnwyd i lawr ar gyfer y cynllun a fydd yn sicrhau gwell gofal i'n casgliadau a gwell mynediad atynt a £500k ar gyfer gweithiau cynnal cyfalaf hanfodol.
_ Nid yw'n cynnwys codi arian cyfalaf ar gyfer projectau cyfalaf mawr.

### 4.2 Rhaglen gyfalaf cynnal a chadw

| Safle | Disgrifiad o'r gwaith | Cyllid |
|---|---|---|
| Pob un | Mynediad i Bobl Anabl | £60,000 |
| Pob un | Iechyd a Diogelwch | £60,000 |
| Pob un | Rhwydwaith TG | £100,000 |
| Pob un | Gwella'r safleoedd | £30,000 |
| Pob un | Mân waith | £50,000 |
| Pob un | Offer mawr newydd yn lle hen rai | £29,000 |
| AWC | Bloc toiledau | £74,000 |
| AWC | To AWC | £58,000 |
| AWC | Gwella'r cyflenwad trydan | £40,000 |
| AWC | Cyfraniad at wella'r siop | £44,000 |
| AOG | Prif fynedfa | £100,000 |
| AOG | Gwella drysau'r orielau | £5,000 |
| AOG | Larwm tân | £40,000 |
| AOG | Trin d_r | £15,000 |
| AOG | Pympiau | £40,000 |
| ALC | Llofft | £10,000 |
| ALC | Gweithdy'r peirianwyr | £20,000 |
| | **CYFANSWM** | **£775,000** |

### 4.3 Grant Prynu Sbesimenau (SAG)

Er mwyn parhau i fod yn amgueddfa fyw, mae angen i ni wella'r casgliadau rydyn ni'n eu cyflwyno i'r cyhoedd a'r rhai rydyn ni'n ymchwilio iddynt, fel y casgliad cynhwysfawr o ddefnyddiau tri dimensiwn o'r gorffennol a'r presennol. Yn rhinwedd ein swydd fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru, rydyn ni'n cyflawni swyddogaethau holl amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol Llundain. Felly mewn unrhyw un flwyddyn gallai'n casgliadau elwa o gael eitemau newydd fel darluniau pwysig, cerbydau hanesyddol, casgliadau pwysig o ffosilau neu gregyn a hyd yn oed adeilad cyfan y mae'n rhaid ei dynnu i lawr a'i ail-godi. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn ni'n ymdrechu mwy i gasglu er mwyn llenwi'r bylchau yn ein casgliadau mewn meysydd sy'n hanfodol er mwyn cyflawni dyheadau **'Creu'r Dyfodol gyda'n Gilydd'.**

Gall pobl roi eitemau ar gyfer y casgliadau i ni neu eu gadael yn eu hewyllys, gallwn eu prynu, eu casglu trwy wneud gwaith maes neu waith cloddio, neu gallwn eu cael trwy'r Cynllun Henebion Cludadwy. Y Grant Prynu Caffael Sbesimenau sy'n talu am y ddau ddull olaf ac mae'n talu hefyd am unrhyw driniaeth y mae'n rhaid i eitem newydd ei chael ar unwaith ac am godi adeiladau enghreifftiol. Rydyn ni'n ymdrechu i chwilio am grantiau allanol i ychwanegu at werth y Grant Caffael Sbesimenau, ac mae gennym bartneriaeth bum mlynedd gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams i gaffael enghreifftiau pwysig o gelfyddyd fodern a chyfoes.

| **Yr arian sydd ar gael** | **£000** |
|---|---|
| Amcangyfrif a ddygwyd ymlaen o 2004-05 | 375 |
| Grant Prynu Sbesimenau | 1,075 |
| Cyfanswm yr Arian sydd ar gael | 1,450 |
| | |
| | |
| **Dosbarthu Cyllid** | |
| Gwaith Maes a Dyraniadau'r Adrannau | 782 |
| **Ar gael am resymau arbennig** | |
| -Celf fodern a chyfoes | 400 |
| - Project CCA | 150 |
| - Project AGGA | 59 |
| Pwll Mawr | 30 |
| Gwarant | 29 |
| **Cyfanswm y Cyllid a Ddosbarthwyd** | 1,450 |

### 4.4 Ffynonellau Incwm Eraill

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu nifer o geisiadau llwyddiannus i wahanol ffynonellau cyllid allanol, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri, cronfa Amcan Un a Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn hanfodol er mwyn gwneud gwelliannau mawr yn y Pwll Mawr, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol ac er mwyn parhau â'r gwaith datblygu yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth hwn yn cyfrannu at y costau refeniw newydd a chynyddol sy'n codi yn sgil datblygiadau fel hyn. Felly, â ninnau'n parhau i geisio cynnydd yn yr arian refeniw a gawn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu'r costau hyn, rydyn ni wrthi hefyd yn ceisio cynhyrchu mwy o incwm o weithgareddau masnachol.

Yn ystod ei flwyddyn weithredu gyntaf, sef 2003/04, bu ein his-gwmni masnachu, Mentrau AOCC Cyf., sy'n rheoli'r rhan fwyaf o'n gweithgareddau masnachol, yn eithriadol o lwyddiannus. Fodd bynnag, fel y rhagwelwyd yng Nghynllun Gweithredol y llynedd, bu lleihad yn elw'r Cwmni Masnachu neu, yn fwy penodol, yn y gweithgareddau manwerthu. Er bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y ffaith bod ymwelwyr unigol yn gwario llai, mae'n debyg mai'r ffactor pwysicaf yw bod y polisi mynediad am ddim yn golygu bod llawer o ymwelwyr yn dod yn ôl dro ar ôl tro. Mae'n debyg bod patrwm gwario'r ymwelwyr hyn yn fwy dewisol ac felly, fel sydd wedi digwydd gyda'r rhan fwyaf o Amgueddfeydd sy'n cynnig mynediad am ddim ym Mhrydain, bu llai o wario yn ein siopau.

Yn ystod 2005/06, bydd y Cwmni Masnachu yn cynnal Cynllun Gweithredu ar gyfer pob un o'i feysydd gweithredu o dan arweiniad Prif Weithredwr newydd y cwmni hwnnw. Ni fu erioed fwy o angen am gynhyrchu rhagor o arian trwy ein gweithgareddau masnachol. Os oes modd, nid yw'r Amgueddfa am defnyddio elw'r gweithgareddau masnachol i dalu costau refeniw ein gweithgareddau craidd, gan mai Arian y Cynulliad ddylai dalu'r rhain. Byddwn ni'n defnyddio'r elw hwn i'w fuddsoddi mewn datblygiadau cyfalaf dros y blynyddoedd nesaf. Bydd ein gweithgareddau masnachol yn elwa o beth ohono, er enghraifft gwneir gwelliannau sylweddol i'r siopau ym Mharc Cathays a Sain Ffagan, ond ceir datblygiadau mwy cyffredinol yn yr Amgueddfeydd hefyd, fel adnewyddu'r orielau. Isod, nodir faint o arian rydyn ni'n disgwyl ei wneud o ffynonellau incwm eraill yn ystod 2005/06:-

| | |
|---|---|
| Elw o'r Cwmni Masnachu | 535,840 |
| Y Bwyty | 203,210 |
| Arddangosfeydd, Digwyddiadau a Gweithgareddau ar y Safleoedd | 230,130 |
| Projectau | 194,470 |
| Blychau Rhoddion | 90,000 |
| Adran Ddatblygu, Noddwyr ac ati, Arian Preifat | 215,390 |
| Cyfraniad DSA ar gyfer AGGA | 400,000 |
| Incwm Arall | 76,170 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | 1,945,210 |

## 5.0 Adolygiad o’r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2004-05

### 3.1 Rhaid i ni sicrhau bod cydnabyddiaeth eang bod yr hyn a gynigiwn yn berthnasol i anghenion cymdeithas gynhwysol

| Dangosydd Perfformiad yn mesur yr amcanion craidd | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymwelwyr | 1,222,206 | 1,250,000 | 1,318,486 | |
| Nifer yr ymwelwyr mewn grwpiau addysg a) addysg ffurfiol | 214,377 | 209,000 | 217,231 | |
| Nifer yr ymwelwyr mewn grwpiau addysg b) addysg anffurfiol | 161,843 | 156,000 | 167,854 | |
| % yr ymwelwyr cyffredinol o grwpiau o dan anfantais gymdeithasol | 32% | 38% | Dim ar gael | *Bydd yr arolygon o ymwelwyr a gomisiynwyd i gasglu’r data hyn yn rhedeg ymlaen i 2005/06 ac felly ni fydd y canlyniad hwn ar gael tan haf 2005.* |
| % y casgliadau a ddehonglir trwy gyfryngau electronig[d] | 12.3% | 13% | 12.7% | *Yn is na’r taged am i ddatblygiad gwefan Gweledigaeth AOCC gymryd y flaenoriaeth yn ystod rhan olaf y flwyddyn. Ond dylai’r System Rheoli Cynnwys newydd sy’n sail i wefan AOCC alluogi’r adrannau i reoli eu tudalennau gwe eu hunain dros y flwyddyn nesaf, a dylai hyn, ynghyd â phroject yr Amgueddfa* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *Rithwir wella perfformiad yn y maes yma.* |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 719,144 | 826,000 | 961,534 | |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan sy'n para dros 10 munud | 55,957 | 64,000 | 116,762 | |

[d] ar sail maint y casgliad oedd yn addas i'w gadw'n electronig – 4,100,000
[s]Disgwylir adroddiad ar yr arolwg ar ddiwedd y flwyddyn

| **Amcanion Newid** | **Carreg Filltir** | **Pethau a Gyflawnwyd** |
|---|---|---|
| **3.1.4** Cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru am 'wlad decach, fwy llewyrchus, iachach ac wedi'i haddysgu'n well' fel yr amlinellir yn *Cymru: Gwlad Well* a strategaethau cysylltiedig fel *Cymru Greadigol.* A ninnau'n ceisio cynyddu a chynnal nifer yr ymweliadau â'n hamgueddfeydd, bydd ein cyfraniad yn canolbwyntio ar ddyfnhau ac ehangu'r cyfle i bobl o bob dosbarth cymdeithasol weld y casgliadau cenedlaethol trwy fodloni anghenion nifer o gynulleidfaoedd penodedig. Gwneir hyn trwy: | | |
| ♦ Gweithredu rhaglenni yn unol â'n polisïau newydd ar fynediad a dysgu, ac yn arbennig gynlluniau a modelau gwaith y gellir eu hyrwyddo trwy bartneriaethau cynaliadwy. | Sefydlu polisi mynediad a dysgu newydd a mecanweithiau i fwydo'r rhaglen, erbyn Ionawr 2005. | Cyflwynwyd y polisi a'r strategaeth ddrafft ar Ddysgu a Mynediad i'r Cyngor yn Chwefror 2005. |
| ♦ Datblygu a phleidio arferion da trwy weithio mewn partneriaeth â | Datblygwyd rhaglen waith a bwriedir creu gr_p rhaglen oddi ar y safle | Cafodd rhaglen waith ei chreu gan is-gr_p 'digwyddiadau cenedlaethol' y gr_p rhaglennu creadigol. Trefnwyd nifer o |

| | | |
|---|---|---|
| chymunedau a sefydliadau ledled Cymru, er enghraifft yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd yn Awst 2004. | erbyn Hydref 2004. | weithgareddau yn Sioe Frenhinol Cymru 2004 (2,385 o bobl yn cymryd rhan) a'r Eisteddfod Genedlaethol (7,235 o bobl yn cymryd rhan). Cytunwyd ar Broject Eisteddfod 2005. |
| ♦ Comisiynu gwaith ymchwil ar les cymdeithasol ac economaidd yr Amgueddfa yng Nghymru a chyhoeddi'r canfyddiadau. | Dogfennau tendr i'w hanfon ym mis Medi 2004. Gwaith i'w gwblhau erbyn y Gwanwyn 2005. | Mae'r gwaith wedi'i ohirio nes bod proses y weledigaeth wedi'i chwblhau pan fydd gennym gyd-destun cliriach ar gyfer y gwaith ymchwil. |
| ♦ Adeiladu ar y gwaith ailddatblygu mawr yn y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol trwy ymchwilio a datblygu cysylltiadau â chymunedau lleol er mwyn sicrhau manteision economaidd tymor hir. | Cynlluniau cymunedol y Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol i'w cwblhau erbyn Mawrth 2005, gan adeiladu ar arolygon economaidd ac arolygon effaith gymdeithasol. | Mae staff y Pwll Mawr yn gweithio gyda Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon i ddatblygu cynlluniau lleol. Cafwyd cyllid ar gyfer Llwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop – y Pwll Mawr fydd yr 'angorbwynt' yn y de. Bu staff yr Amgueddfa Wlân genedlaethol yn gweithio i greu fforwm twristiaeth newydd i gymryd lle Gr_p Atyniadau Dyffryn Teifi. |
| **3.1.5** Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi weithredu ei strategaeth ddiwylliannol, gan chwarae rhan arweiniol yn *Cymru'n Creu*, a | Cyfrannu at Strategaeth Ddiwylliant ddiwygiedig Llywodraeth y Cynulliad (Cymru'n Creu) i sicrhau adlewyrchiad cywir o gyfraniad y sector amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau erbyn Rhagfyr 2004. | Cyflrannodd AOCC at y Strategaeth Ddiwylliant. Mae AOCC wedi bod yn cyfrannu'n rheolaidd at y drafodaeth ar *Cymru'n Creu* a'r Adolygiad o'r CCNC fel rhan o broses ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru '*Gwneud Cysylltiadau'*. Bydd y Llywydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynrychioli AOCC ar y 'Bwrdd Diwylliant' newydd i greu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru. |
| **3.1.6** Parhau i wneud gwelliannau i'w gwneud yn haws i bobl fynd a dod yn ein hamgueddfeydd, yn arbennig: | | |
| ♦ gosod mynedfa awtomataidd yn nrws ffrynt yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. | Cael caniatâd adeilad rhestredig a chomisiynu'r gwaith erbyn Hydref 2004. | Gwaetha'r modd, achosodd cyfyngiadau'r system gynllunio oedi mawr, ond rhoddodd Bwyllgor Cynllunio'r Awdurdod Lleol ganiatâd yn y pen draw ym Mawrth 2005. |
| ♦ Addasu agweddau eraill ar yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ac Amgueddfa Werin Cymru. | Cynllun gwaith 2004/05 i'w ddatblygu. | Cynllun gwaith wedi'i weithredu ar gyfer AOG ac AWC. |
| ♦ Datblygu a gweithredu cynlluniau ym mhob rhan o'r Amgueddfa i'w gwneud yn haws i bobl mynd a dod, gyda chymorth y Swyddog Amrywiaeth a | Ysgrifennu'r cynllun ac asesu'r cynnydd, mis Hydref 2004. Paratoi sylfaen ymgynghori erbyn y Gwanwyn 2005. | Paratowyd cynllun mynediad a dechreuwyd ymgynghori â nifer o sefydliadau allanol. Ymhlith y sefydliadau hyn mae: Cynghres Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro. Gr_p Mynediad Castell-nedd a Phort Talbot, RNIB, Sefydliad Deillion Caerdydd a'r RNID. |

| | | |
|---|---|---|
| benodwyd yn ddiweddar. | | |
| **3.1.7** Defnyddio canfyddiadau rhan gyntaf proses y weledigaeth yn sylfaen i ddiffinio ein fframwaith delwedd a brand, yn cynnwys paratoi briff dylunio i'w dehongli ar ffurf weledol. | Tendr ar gyfer y gwaith brandio cychwynnol (AOCC) erbyn Gorffennaf 2004. Dechrau'r gwaith ym Medi 2004. Cwblhau'r gwaith erbyn Rhagfyr 2004. | Cafodd y cynigion amlinellol ar gyfer ailenwi ac ail-frandio AOCC eu cymeradwyo mewn egwyddor gan y Cyngor yn Chwefror 2005. Yn dilyn ymgynghori ar y Weledigaeth, caiff y cynigion hyn eu profi fel y gellir rhoi'r canllawiau terfynol ar waith yn 2005-06. |
| **3.1.8** Paratoi ar gyfer ein canmlwyddiant yn 2007 trwy gytuno ar gysyniad cyffredinol a phenderfynu ar nodau ac amcanion perthnasol. | Y Cyngor i gytuno ar Raglen y Canmlwyddiant erbyn Rhagfyr 2004. | Cytunwyd ar Raglen y Canmlwyddiant ac mae dau gr_p strategol mewnol yn symud ymlaen â'r gwaith: y Gr_p Rhaglennu Creadigol a'r Gr_p Cyfeiriad Deallusol. |

## 3.2 Rhaid i ni barhau i wneud ein casgliadau a'r wybodaeth sydd ynghlwm wrthynt yn fwyfwy hygyrch

| Dangosydd perfformiad yn mesur yr amcanion craidd | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymholiadau am y casgliadau | 22,873 | 21,000 | 22,196 | |
| Nifer y projectau ymchwil | 79 | 75 | 101 | |
| Nifer y bobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau oddi ar y safle e.e. darlithoedd | 221,814 | 185,000 | 207,085 | |
| Nifer y llefydd y gwnaed benthyciadau iddynt | 367 | 340 | 366 | |

| Amcan Newid | Carreg Filltir | Pethau a gyflawnwyd |
|---|---|---|
| **3.2.4** Adeiladu ar fentrau diweddar i ddatblygu cydweithio yn ein holl weithgareddau, gyda phwyslais arbennig ar: | | |

| | | |
|---|---|---|
| ▪ Cydweithio â CyMAL a Chyngor Celfyddydau Cymru ar rannau nesaf gwaith datblygu ein | ▪ sicrhau cyllid ar gyfer rhaglen beilot yn y celfyddydau gweledol | Cytunwyd ar raglen a blaenoriaethau ar gyfer 2005-06 a'r tu hwnt gyda CyMAL, Llywodraeth Cynulliad Cymru a gr_p llywio'r partneriaethau yn Chwefror 2005. Cytunwyd ar raglen weithgareddau 2005-06. |

| | | |
|---|---|---|
| gweithgareddau partneriaeth yn y gwahanol leoliadau a fydd yn ehangu mynediad yn ddaearyddol yng Nghymru, gan adeiladu ar waith gwerthuso *Cyfoeth Cymru Gyfan* a datblygu rhwydwaith o ganolfannau celfyddydau gweledol. | erbyn Hydref 2004.<br>▪ cadarnhau cyllid ar gyfer haen CyMAL erbyn Hydref 2004.<br>▪ sefydlu rhaglen 2005-06 erbyn Mawrth 2005. | |
| ▪ Cydweithio ag amgueddfeydd, orielau, sefydliadau treftadaeth a sefydliadau diwylliannol cenedlaethol i sicrhau'r budd mwyaf o bartneriaethau fel Oriel Ddigidol Genedlaethol y Celfyddydau Gweledol gyda'r Llyfrgell Genedlaethol a Chyngor Celfyddydau Cymru. | ▪ Paratoi adroddiad ar yr astudiaeth ddichonoldeb erbyn Chwefror 2005. | Mae AOCC wedi cyfrannu at barhad y project sy'n cael ei arwain gan yr Oriel Genedlaethol yn Llundain i asesu'r potensial ar gyfer rhannu cronfeydd data rhwng casgliadau celf gyhoeddus. Mae hefyd wedi cryfhau'r gronfa ddata o'i chasgliadau celf sydd ar gael ar ei gwefan. Ni chafwyd dim cynnydd ar broject yr Oriel Ddigidol Genedlaethol - Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n arwain yn hyn o beth. |
| • Ystyried y potensial ar gyfer partneriaethau eraill sy'n adlewyrchu'r arbenigedd a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael, yn enwedig gweithgareddau sy'n ychwanegu at *Ar Dir Cyffredin* | Edrych i mewn i sefydlu o leiaf ddwy bartneriaeth newydd erbyn Mawrth 2005. | Sefydlwyd dwy bartneriaeth newydd (Amgueddfa Sir Gaerfyrddin; Amgueddfa Pont-y-p_l) a pharatowyd rhaglen ar gyfer y ddwy amgueddfa i'w gweithredu yn 2005-06. |
| ▪ Ystyried cyfleoedd ar gyfer partneriaethau rhyngwladol gan fod aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd yn ehangu. | Penderfynu ar gyfleoedd newydd ar gyfer partneriaethau a pharatoi papur cwmpasu drafft erbyn mis Ionawr 2005. | Bydd AOCC yn cyfrannu at gais i ddod yn broject 'Casglu a Rhannu - Rhan 2' a weithredir ar draws yr UE. Mae hyn yn rhan o raglen Gruntvig 4 yr UE sy'n ceisio tynnu amgueddfeydd, orielau ac asiantaethau dysgu gydol oes at ei gilydd i gymharu â chyferbynnu arferion da a ffyrdd da o ddatblygu polisïau.<br><br>Mae AOCC yn rhan o gais 4-gwlad am gyllid o dan raglen Culture 2000 ar gyfer 'Project Broydd Mwyngloddio a'u Treftadaeth'. |
| • Cydweithio â'r partner arweiniol, sef Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro (APCASB), i ddatblygu cynllun busnes a chyfalaf ar gyfer *Menter Sutherland* yn Nhyddewi. | Datblygu cynllun busnes terfynol diwygiedig erbyn Medi 2004. Cytuno ar y gwaith cynllunio erbyn Rhagfyr 2004. Cytuno ar | Cytunwyd ar strategaeth gyllido cyfalaf ac mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi gwneud cais i WEFO. Rydyn ni'n aros i glywed am ganlyniad y cais. . |

| | | |
|---|---|---|
| | y strategaeth cyllid cyfalaf erbyn Rhagfyr 2004. | |
| • Cefnogi'r project i ddathlu canmlwyddiant Caerdydd yn 2005. | Cytuno ar brojectau erbyn Medi 2004, cynllun i ddechrau Ionawr 2005. | Cytunwyd ar raglen, gan ddechrau gydag arddangosfa Gwen John ac Augustus John yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. Mae cyllid ar gael ar gyfer G_yl Wyddoniaeth Caerdydd y mae AOCC yn bartner allweddol ynddi, ym mis Gorffennaf 2005. |
| **3.2.5** Symud ymlaen â'n hamcan strategol cenedlaethol o ddehongli'r casgliadau, yr adeiladau a'r stadau sydd yn ein gofal sy'n darlunio treftadaeth ddiwydiannol ac yn gwarchod golygfeydd hanesyddol Cymru. Sicrhau eu bod ar gael yn eang trwy barhau â'r gwaith o adeiladu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe ac NWMS Cyf. Sicrhau bod yr arddangosfeydd a'r defnyddiau dehongli'n cael eu cwblhau gan sefydlu polisïau, gweithdrefnau a threfniadau staffio ar gyfer agor a rhedeg yr amgueddfa newydd yn 2005-06. | • Cysylltu'r gwasanaethau i'r adeilad erbyn Mehefin 2004.<br>• Penodi Pennaeth yr Amgueddfa erbyn Awst 2004.<br>• Trosglwyddo'r adeiladu i'r Contractwyr Arddangosfeydd erbyn Tachwedd 2004.<br>• Staff allweddol ar y safle erbyn Tachwedd 2004 | Cyrhaeddwyd cerrig milltir allweddol 2004/05 er bod peth oedi wedi bod. Mae'r arddangosfeydd yn cael eu gosod. Caiff yr adeilad ei drosglwyddo'n ffurfiol i AOCC ym Mai 2005 a chynhelir agoriad ffurfiol yn yr wythnos cyn Diwrnod Trafalgar, 21 Hydref. Mae'r posibilrwydd o agor rhannau o'r adeilad a/neu agor i grwpiau gwadd cyn hynny yn cael ei ystyried. |
| **3.2.6** Datblygu polisi amgylcheddol a chynnal archwiliadau amgylcheddol yn ein prif safleoedd i weld pa mor gynaliadwy ydyn nhw. | Cwblhau'r Archwiliad Amgylcheddol erbyn Tachwedd 2004 a'r Polisi Amgylcheddol erbyn Chwefror 2005. | Comisiynwyd Rhwydwaith Arena i gynnal Archwiliadau Amgylcheddol o safleoedd 6 o'r Amgueddfeydd, ac mae'r gwaith wedi dechrau. Bydd hyn yn para tan 2005-06. Mae Fforwm Datblygu Cynaliadwy AOCC yn cwblhau Polisi Datblygu Cynaliadwy ehangach ar gyfer AOCC. |
| **3.2.7** Yng nghyd-destun ein cynllun meistr strategol, ehangu a gwella cyfleusterau cyhoeddus a chyfoethogi'r | | |

| | | |
|---|---|---|
| dehongliad o etifeddiaeth ddiwylliannol arbennig Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru trwy: | | |
| **3.2.7.1** Parhau i ailadeiladu eglwys Llandeilo Tal-y-bont. | Gorffen to corff yr eglwys erbyn Gorffennaf 2004, gosod ystlys ddeheuol y to erbyn Mawrth 2005 a'r waliau terfyn erbyn Mawrth 2005. | To corff yr eglwys a tho'r ystlys ddeheuol wedi'u cwblhau. Gwaith plastro'r tu mewn ar y gweill, cyfarpar yr Uned Ddehongli wedi'i osod. Gwaith ar y gweill ar y wal derfyn. |
| **3.2.7.2** Cynnal rhaglen i adfer y tai gwydr hanesyddol Sain Ffagan fesul cam. | Derbyn tendrau erbyn Ebrill 2004, dechrau gwaith erbyn Gorffennaf 2004 a chwblhau'r gwaith erbyn Hydref 2004. | Mae'r prif d_ gwydr wedi'i gwblhau. Mae'r contractiwr wedi tynnu'r ail d_ gwydr i lawr ac mae'n ei adnewyddu oddi ar y safle. Daliwyd y rhaglen yn ôl gan fod angen gwaith ar yr adeilad nesaf at yr ail d_ gwydr ac mae'r gwaith hwn wedi dechrau erbyn hyn. |
| **3.2.8** Symud ymlaen â'r astudiaeth gwmpasu a'r opsiynau ar gyfer oriel genedlaethol newydd mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'u hagenda strategol *Cymru: Gwlad Well.* | Cwblhau adroddiad yr astudiaeth ddichonoldeb erbyn Chwefror 2005. | Cwblhawyd yr astudiaeth hyfywedd, ond cafodd yr adroddiad ei ohirio oherwydd salwch yr awdur. Dylai ddod i law ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. |
| **3.2.9** Ffurfio uned waith fechan a gr_p llywio i symud ymlaen â'r broses o asesu ac ail-ddylunio'r ffordd y mae rhaglenni arddangos parhaol a dros dro'n cael eu trefnu yn ein hamgueddfeydd, a chychwyn astudiaeth hyfywedd ar ailddatblygu mannau arddangos. | Cwblhau adroddiadau gr_p erbyn mis Hydref 2004. | Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi cytuno ar yr adroddiad; mae'r strwythurau staffio'n barod i'w gweithredu'n gynnar yn 2005-06. |

## 3.3 Rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n gallu gofalu'n iawn am y casgliadau a'r ystadau a ymddiriedwyd i'n gofal

| Dangosydd perfformiad yn mesur yr amcanion craidd | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| % y casgliadau sydd wedi'u dogfennu fel y gellir rheoli'r rhestr eiddo[a] | 37.8% | 40% | 42.3% | |
| % y casgliadau a gatalogiwyd | 21.5% | 22.5% | 23.4% | |

[a]Ar sail casgliad o gyfanswm o 4,700,000 o eitemau. Mae cofnodion lefel rhestr eiddo yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol sy'n golygu y gellir adnabod a lleoli eitem. e.e. rhif derbyn; teitl neu enw'r eitem; lleoliad; statws – benthyciad, wedi'i brynu, rhodd ac ati.
[b] Ar sail casgliad o gyfanswm o 4,700,000 o eitemau. Bydd gan gofnodion lefel catalog yr holl wybodaeth a geir mewn cofnod lefel rhestr eiddo ond byddant hefyd yn cynnwys data academaidd fel cyfeiriadau at gyhoeddiadau

| Amcan Newid | Carreg Filltir | Pethau a gyflawnwyd |
|---|---|---|
| **3.3.3** Datblygu cynllun a fydd yn golygu y gellir gofalu am ein casgliadau'n well a chynnig gwell mynediad iddynt trwy fuddsoddi mewn nifer o'n hamgueddfeydd, gan gynnwys ein Canolfan Gasgliadau bresennol yn Nantgarw. Canfod rhagor o arian cyfatebol ar gyfer y £3.5m a glustnodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y gwelliannau i'n seilwaith yn | • Cytuno ar strategaeth gyllido erbyn Gorffennaf 2004.<br>• Penodi Tîm Project erbyn Hydref 2004.<br>• Cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn Nhachwedd 2004.<br>• Cyflwyno ceisiadau cynllunio yn Chwefror 2005.<br>• Dechrau'r gwaith rhagarweiniol yn Nantgarw, Mawrth 2005. | Cytunwyd ar y strategaeth gyllido a chafwyd caniatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Penodwyd Rheolwr Projectau Allanol ac Arweinydd Projectau Mewnol. Penodwyd Tîm Dylunio ym mis Hydref 2004. Penodwyd L&R Consulting i symud ymlaen â Cham 1 o'r cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer elfen AWC o'r project, ac mae drafft cyntaf y cais hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Cyflwynwyd y ceisiadau cynllunio perthnasol a dechreuwyd ar y gwaith yn Amgueddfa Lechi Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| gadael i ni gynnal ein cyd-fentrau a'n rhaglenni arddangos dros dro yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn wella. Pan fydd y datblygiadau hyn wedi'u cwblhau, bydd bron y cyfan o'n 4.7m o eitemau wedi cael eu storio mewn ffordd briodol. Bydd hyn yn golygu bod 90% o'r lle'n cyrraedd y safonau priodol ar gyfer storio/arddangos. | | |
| **3.3.4** Gweithredu ar gasgliadau'r adolygiad o'n gwasanaethau cadwraeth a dadansoddi ac unrhyw argymhellion sy'n codi o adolygiad y Swyddfa Archwilio Gwladol o'n gweithgareddau rheoli casgliadau - gan gadw llygad ar y costau. | Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyhoeddi argymhellion yn dilyn adolygiad y Swyddfa Archwilio Gwladol erbyn Gorffennaf 2004. Cytuno ar ymateb integredig i argymhellion y Swyddfa Archwilio Gwladol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac adolygu materion sy'n ymwneud â chadwraeth a chysylltiad hynny â storio erbyn Rhagfyr 2004. | Gweithredwyd nifer o argymhellion (ehangu hap-archwiliadau, asesiad effeithiau a D.P. ar safonau storio) a gwneir gweddill y gwaith dros y flwyddyn nesaf.<br><br>Rydyn ni'n rhoi diweddariadau i Bwyllgor Adolygu Perfformiad AOCC a Llywodraeth Cynulliad Cymru ddwywaith y flwyddyn ac i Bwyllgor Archwilio AOCC unwaith y flwyddyn . |
| **3.3.5** Sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth trwy weithredu'r argymhellion a bennwyd yn 2003-04. | Rhoi Cynllun Gweithredu'r Archwiliad Diogelu Data ar waith erbyn Rhagfyr 2004. Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer gwneud cais o dan y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn eu lle erbyn Ionawr 2005. | Mae gan AOCC drefniadau a phrosesau i gynnal safonau Rhyddid Gwybodaeth ar draws y sefydliad. Hyd yn hyn, darparwyd hyfforddiant yn yr holl feysydd perthnasol. Yn ogystal, mae hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data wedi'i gynnwys fel rhan i raglen gyflwyno'r staff.<br><br>Mae'r polisi drafft ar Ddiogelu Data yn cael ei ddatblygu a bydd yn rhan o'r polisi cyffredinol ar Reoli Gwybodaeth a fydd yn barod i'w adolygu yn Ebrill 2005. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynhaliwyd adolygiad o'r systemau sy'n rheoli data personol yn ystod y flwyddyn. |
| **3.3.6** Cynnal adolygiad pum-mlynedd o'r Polisïau Casglu fel sy'n ofynnol i gadw'n statws fel Amgueddfa Gofrestredig ac er mwyn bodloni'r gofynion sy'n codi o broses gwireddu'r Weledigaeth. | Argymell polisïau diwygiedig i'r Gyfarwyddiaeth erbyn Hydref 2004.<br>Strategaethau casglu drafft i'w trafod erbyn Mawrth 2005. | Rhoddir y Polisïau terfynol gerbron cyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf 2005 (yn ôl y gofyn) a bydd y strategaethau casglu'n dilyn yn ystod 2005-06 wrth i broses gwireddu'r Weledigaeth ddatblygu. |

## 3.4 Rhaid i ni hybu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant meddwl-agored o fewn y sefydliad

| Dangosydd perfformiad yn mesur yr amcanion craidd | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 Canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| % o'r amser a gollwyd oherwydd salwch | 3.66% | 3.8% | 3.57% | |

| Amcan Newid | Carreg Filltir | Pethau a gyflawnwyd |
|---|---|---|
| **3.4.2** Ar ôl ymgynghori â'n budd-ddeiliaid, cyhoeddi datganiad gweledigaeth a datblygu amcanion strategol i fod yn fframwaith ar gyfer y ffordd rydyn ni'n gweithredu ac yn datblygu dros y deng mlynedd nesaf ac i bennu blaenoriaethau ar gyfer defnyddio adnoddau. | Cyhoeddi datganiad gweledigaeth i fod yn destun ymgynghori erbyn diwedd 2004. | Dosbarthwyd y Weledigaeth yn fewnol (staff, y Cyngor, y Llys, Noddwyr, Cyfeillion) a dechreuwyd cyfnod o 7 wythnos o ymgynghori cyhoeddus ddechrau Mawrth 2005. Mae proses o gynllunio manylach i bennu blaenoriaethau ar gyfer y defnydd a wneir o adnoddau wedi dechrau a chaiff y mater yn cael ei gywreinio yng ngoleuni'r ymgynghori. |
| **3.4.3** Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod trefniadau llywodraethu gwell a phriodol ar waith, yn enwedig o ran penodi a thalu aelodau'r Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Elusennau. | Penodi Gr_p Gorchwyl a Gorffen a chyfreithwyr ym Mehefin 2004 i ddatblygu cynigion a gaiff eu hystyried gan y Cyngor yn Hydref 2004. | Cyflwynwyd y Siarter ddrafft i'r Cyngor yn Chwefror. Disgwylir ymateb y Comisiynwyr Elusen a Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y gall y Cyngor a'r Llys ystyried fersiwn derfynol ym Mehefin 2005. |
| **3.4.4** Sefydlu *Buddsoddwyr mewn Pobl* ar draws ein hamgueddfeydd a sicrhau bod y safon yn cael ei chynnal yn y Pwll | Pwll Mawr i ennill dyfarniad *Buddsoddwyr mewn Pobl* a chais i'w wneud ar gyfer Amgueddfa'r Lleng Rufeinig. | Enillodd y Pwll Mawr ddyfarniad *Buddsoddwyr mewn Pobl* a chyflwynwyd cais ar gyfer Amgueddfa'r Lleng Rufeinig. Disgwylir yr asesiad yn haf 2005. Gwneir cais ar gyfer safle arall wedyn. |

| | | |
|---|---|---|
| Mawr, ein safle cyntaf i geisio am y dyfarniad. | | |
| **3.4.5** Parhau i weithredu'r Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu a ffurfio Strategaeth Brif-ffrydio'r Gymraeg i'w gweithredu yn 2005-06. | Strategaeth brif-ffrydio ddrafft i fod yn ei lle erbyn Mehefin 2004. | Wedi cwblhau. Cyflwynwyd y Strategaeth Brif-ffrydio (2004-05) i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae Uned Iaith LLywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfeirio ati fel enghraifft o arfer da. |

## 3.5 Mae'n rhaid i AOCC wella ei sylfaen ariannu i'w alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau.

| Dangosydd perfformiad yn mesur yr amcanion craidd | 2003-04 canlyniad | 2004-05 targed | 2004-05 canlyniad | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cymhorthdal grant[a] am bob ymwelydd | £15.36 [e] | £16.10 [g] | £16.15 | |
| Cymhorthdal grant[a] am bob defnyddiwr [b] | £12.33 [f] | £13.24 [h] | £12.80 | |
| Incwm net a gynhyrchwyd gan AOCC ei hun [c] fel % o'r gwariant net ar weithredu[d] | 7.4% | 3.9% | 7.5% | |
| Cymhorthdal grant[a] fel cyfran o gyfanswm y gwariant gweithredu [d] | 92.6% | 93.1% | 95% | |

a ffigwr gros sy'n cynnwys yr holl gymhorthdal grant (refeniw, cyfalaf a phrynu sbesimenau), ond nid yw'n cynnwys yr arian a dynnwyd i lawr ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe;
[b] nifer y defnyddwyr = nifer yr ymwelwyr + pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle + ymweliadau â'r wefan sy'n para dros 10 munud + ymholiadau am y casgliadau;
[c] nid yw'n cynnwys incwm o goffrau cyhoeddus (e.e. HLF), cyfraniadau a gafwyd ar gyfer projectau cyfalaf penodedig ar gyfer adeiladu a phrynu sbesimenau; llog banc;
[d] cyfanswm y gwariant gweithredu = colofnau anghyfyngedig + cyfyngedig o'r cyfrifon blynyddol wedi tynnu unrhyw symiau a wariwyd ar brynu eitemau ar gyfer y casgliadau a gweithiau cyfalaf;
[e] ar sail Cymhorthdal Grant o £18,774,000 a 1,222,206 o ymwelwyr; [f] ar sail Cymhorthdal Grant o £18,774,000 a 1,522,850 o ddefnyddwyr yn ôl diffiniad b
[g] ar sail Cymhorthdal Grant o £20,120,000 a 1,250,000 o ymwelwyr; [h] ar sail Cymhorthdal Grant o £20,120,000 a 1,520,000 o ddefnyddwyr yn ôl diffiniad b

| Amcan Newid | Carreg Filltir | Pethau a gyflawnwyd |
|---|---|---|
| **3.5.3** Ystyried cynigion bwrdd ein is-gwmni masnachu, Mentrau AOCC Cyf., i gynhyrchu mwy o incwm o'n gweithgareddau masnachol gan ganolbwyntio i ddechrau ar Amgueddfa Werin Cymru lle bwriedir codi tâl am barcio. Bydd y tâl yn talu am ddarparu rhagor o lefydd parcio ar gyfer ymwelwyr, costau'r cynnydd yn y traul ac am adnewyddu arddangosfeydd na cheir cymorth grant ar eu cyfer. | Datblygu cynigion i gynyddu refeniw yn AWC erbyn Hydref 2004.<br><br>Disgwylir incwm o £180,000 heb gynnwys TAW o'r maes parcio yn 2004/05. | Cafodd y cynigion cyntaf eu gwrthod am nad oedden nhw'n gost-effeithiol. Ystyriodd Bwrdd y Fenter gynllun arall m mis Rhagfyr ac fe'i trosglwyddwyd i Fwrdd y Cyfarwyddwr i'w gostio o fewn y cynllun cyfalaf cyffredinol. Caiff siop a bar coffi AWC eu hymestyn a'u gwella diwedd 2005/06 os bydd arian ar gael.<br><br>Cafwyd incwm o £167k heb gynnwys TAW o'r maes parcio yn 2004/05. |
| **3.5.4** Datblygu strategaeth codi arian tymor hir a fydd yn cefnogi datblygiad ein Canolfan Gasgliadau yn Nantgarw ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, yn ogystal â sefydlu sylfaen ariannu tymor hir i ategu ein gweithgareddau craidd a'n gweithgareddau datblygu trwy godi lefel yr arian o goffrau preifat. | Sefydlu gweithgor i wneud argymhellion ar Strategaeth Codi Arian tymor hir y bydd y Cyngor yn cytuno arni yn Hydref 2004. Penodi Pennaeth Datblygu newydd. | Cychwynnodd y Pennaeth Datblygu newydd yn ei swydd ym mis Ionawr 2005.<br><br>Sefydlwyd gweithgor ac mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r amserlen. Lluniwyd cynllun gweithredu i bennu cylch gwaith Bwrdd Datblygu, ac i recriwtio Cadeirydd Bwrdd. |
| **3.5.5** Symud ymlaen â'r mesurau y cytunwyd arnynt i ddarparu ateb tymor byr i'r diffyg yn y cynllun pensiwn fel y gall fodloni'r gofynion sylfaenol, a pharhau i chwilio am opsiynau a fydd yn | Gweithredu mesurau tymor byr erbyn Medi 2004. | Mae cyfraniad y cyflogwr wedi codi o 16.8% i 21.3%. Mesurau tymor byr eraill wedi cael eu gweithredu. Ystyriodd y Cyngor ddewisiadau tymor hirach i fynd i'r afael â'r diffyg yn y cynllun ym Mawrth 2005. Cafwyd gwerth £300k gan y Cynulliad. Bydd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar warantu'r diffyg. |

| | | |
|---|---|---|
| rhoi sefydlogrwydd tymor hir. | | |

| | |
|---|---|
| **Atodiad A** | **Uchafbwyntiau'r Rhaglen Dysgu a Mynediad ar gyfer 2005/06** |
| **Atodiad B** | **Y Rhaglen Ymchwil** |
| **Atodiad C** | **Rhaglen Arddangosfeydd** |
| **Atodiad D** | **Cynllun Gweithredu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe** |

**Atodiad A**
**Uchafbwyntiau'r Rhaglen Dysgu a Mynediad ar gyfer 2005-06**

**Er mwyn Cyrraedd Cynulleidfaoedd Ehangach, byddwn ni'n:**

- Parhau i roi project Ar Dir Cyffredin 2 (OCG2) ar waith gan gydweithio â phobl ifanc mewn pum cymuned ledled Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd.
- Cydweithio â'r Urdd i ddatblygu rhaglen ar gyfer pobl ifanc sy'n aros yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.
- Ehangu'r rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer pobl h_n yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, gan ychwanegu sesiynau misol tebyg yn yr Amgueddfa Werin.
- Cynnal gwaith hel atgofion gyda grwpiau o bobl h_n mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio fel Ail Gymal rhaglen bartneriaeth y Pwll Mawr gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Gwasanaeth Allestyn Amgueddfa Pont-y-p_l.
- Canolbwyntio mwy ar blant ag anghenion addysg arbennig, gan lansio gweithdai ac adnoddau i ysgolion (Celfyddyd, SCAN, Astudiaethau Natur, Glanely) yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol.
- Datblygu rhaglenni gweithgareddau ac adnoddau ar gyfer pobl ag anableddau trwy raglen Allestyn ac Addysg, llwybrau cyffwrdd, sesiynau a throlïau gafael, a darparu ffolderi print mawr.
- Datblygu dimensiwn addysgol rhaglen Bartneriaeth AOCC, gan gynnwys rhaglen weithdai ar Wynebau Cymru ym Modelwyddan a chydweithio i gynnig deunyddiau dehongli i bobl â nam ar eu golwg yn Nh_ Glantorfaen (Amgueddfa Pont-y-p_l).

**Er mwyn cyflawni ein swyddogaeth allweddol wrth hybu dealltwriaeth am dreftadaeth, diwylliant ac amgylchedd naturiol Cymru, byddwn ni'n:**

- Lansio rhaglen ddigwyddiadau arloesol ac amrywiol yn Amgueddfa Werin Cymru i nodi diwedd yr Ail Ryfel Byd.
- Cynnal rhaglen ddigwyddiadau yn y Pwll Mawr i gofio diwedd Streic y Glowyr 1984-5 a swyddogaeth Bois Bevin yn yr Ail Ryfel Byd.
- Datblygu rhaglen o adnoddau a gweithgareddau addysgol i gefnogi rhaglenni arddangosfeydd Augustus a Gwen John, yr Orsedd Arfau (ar daith o'r Amgueddfa Brydeinig), Cynllun Cyfnewid Gweithiau'r Argraffiadwyr, Cymru wrth ei Gwaith, Darluniau Oes Victoria ac Artes Mundi II.
- Cyflwyno gweithgareddau G_yl Wyddoniaeth Caerdydd ar y cyd â'n partneriaid.
- Creu rhaglenni addysg gyda chymunedau lleol yng Nghaerdydd a Llanberis i gefnogi presenoldeb AOCC yn Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

- Cyflawni'r project 'Deall yr Amgylchedd Morol' gan gydweithio â chymunedau ar hyd arfordir y de a chreu uned arddangos a rhaglen ddigwyddiadau symudol.
- Cydweithio â Choed Cadw i gynnal rhaglen 'Nature Detectives'.
- Ailgynllunio ac ail-lansio gwefan Rhwydwaith Agenda 21 Cymunedau Ysgolion i'w gwneud yn haws ei defnyddio ac i ddenu rhagor o ddefnyddwyr.
- Lansio canolfan ddehongli newydd ar gyfer Eglwys Sant Teilo yn Amgueddfa Werin Cymru ac ehangu'r rhaglen ddehongli ar gyfer y Pentref Celtaidd.
- Datblygu rhaglenni gweithdai sy'n cysylltu'r Pentref Celtaidd â menter gloddio gymunedol Llan-maes.
- Lansio'r CD ROMs a ganlyn: Ysgol Maestir; Celf yn AOCC; yr Eisteddfod Genedlaethol a'i heitemau; Rhan Allanol Môr Hafren: Deall Gwely'r Môr.
- Datblygu adnoddau dysgu bwrdd gwyn ar gyfer Amgueddfa'r Lleng Rufeinig – Llythyron Titus/ Cyflwyniad i Amgueddfa'r Lleng Rufeinig.
- Treialu cyfres o dudalennau gwe rhyngweithiol ar Eglwys Sant Teilo a diwrnod golch oes Victoria yn yr Amgueddfa Werin.

**Er mwyn rhoi arweiniad addysgol wrth hybu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy gyfleoedd ar gyfer dysgu ffurfiol a dysgu gydol oes, byddwn ni'n gwneud y pethau a ganlyn:**

- Yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe, byddwn ni'n creu rhaglen ysgolion a rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer dysgu gydol oes; yn datblygu dau le dysgu, yn cyflwyno gweithgareddau allestyn i ddenu cynulleidfaoedd newydd, yn darparu rhaglenni ar gyfer pobl ag anableddau, ac yn creu cynnyrch addysgol ar gyfer y we.
- Adeiladu ar ein hadnoddau dysgu i deuluoedd a'u cryfhau trwy gydweithio â Dysgu fel Teulu Caerdydd yn yr Amgueddfa Werin; creu labeli gan blant ar gyfer plant; datblygu adnoddau i deuluoedd ar y we; gwneud gwelliannau mewn ymateb i archwiliad i ba mor hwylus yw'n holl safleoedd i deuluoedd; creu defnyddiau dysgu a dehongli a fydd yn helpu teuluoedd i ddysgu gyda'i gilydd.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer Dysgwyr Cymraeg ar bob safle, gan gynnwys y rhaglen Llwybrau Llafar ar gyfer oedolion sy'n dysgu yn Amgueddfa Werin Cymru a chynllun tebyg yn Amgueddfa Lechi Cymru; sgyrsiau misol 'Taith Iaith' ar gyfer dysgwyr a siaradwyr yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol; 'Sadwrn Siarad' yn y Pwll Mawr, rhaglen allestyn yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig, a chydweithio â'r Fenter Iaith yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol, Dre-fach Felindre.
- Cydweithio â menter 'Dathlu Cymru' Bwrdd yr Iaith Gymraeg i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau i ddathlu gwyliau traddodiadol Cymreig, a'r diwylliant a'r dreftadaeth gysylltiedig, mewn cyd-destun cyfoes.

- Datblygu gweithgareddau cymunedol mewn lleoliadau dewisol gan ganolbwyntio ar gerdded caeau i gefnogi amcanion y Cynllun Henebion Cludadwy.

**Atodiad B**
**Y Rhaglen Ymchwil**

Mae gwaith ymchwil yn sail i holl swyddogaethau a hygrededd unrhyw Amgueddfa Genedlaethol. Mae llawer o feysydd arbenigol ein staff wedi dirywio neu heb eu cynrychioli'n dda mewn prifysgolion bellach (e.e. archaeoleg ddiwydiannol, hanes celfyddyd, niwmismateg, bywydeg dacsonomig, paleontoleg dacsonomig ac ethnograffeg). Felly mae gennym ran bwysig i'w chwarae wrth hybu dealltwriaeth am dreftadaeth, diwylliant ac amgylchedd naturiol Cymru a'i lle yn y byd ac wrth hybu diddordeb cynyddol y cyhoedd yn y meysydd hynny.

Bydd nifer o weithgareddau ymchwil amrywiol yn parhau yn 2005-06, gan ategu ein rhaglen gaffael ac arddangos yn ogystal â'n gweithgareddau craidd eraill. Caiff gweithgareddau ymchwil eu meithrin a'u monitro gan y Bwrdd Gofynion Ymchwil, sy'n ceisio sicrhau bod ein gwaith ymchwil yn ategu ein Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ac yn cael yr adnoddau gorau posibl o fewn ein cyllidebau cyfyng.

<u>Ymhlith y projectau ymchwil y byddwn ni'n ymwneud â nhw yn ystod y flwyddyn mae:</u>

a) <u>Yr Amgylchedd</u>

- Ymchwiliad tair blynedd i greaduriaid a geoffiseg gwely Môr Hafren mewn partneriaeth ag Arolwg Daearegol Prydain, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Ystadau'r Goron a Chymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain.

- Project mewn partneriaeth ag Awdurdod Harbwr Caerdydd yn ymchwilio i cironomidau a monitro ansawdd d_r gan ddefnyddio diatomau fel dangosyddion.

- Monitro'r gwaith o leihau lefel asid Afon Gwy fel rhan o broject calchu mawr, gan ddefnyddio diatomau a phlanhigion isel fel bio-ddangosyddion, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Arolwg o blanhigion prin Cymru i asesu anghenion cadwraeth, gan roi sylw arbennig i ddosbarthiadau a rhywogaethau pwysig nad ydynt wedi'u cynnwys ym mhroses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

- Ymchwil i flodeueg Westffalaidd ddiweddar a chydgysylltu â phroject geo-gadwraeth rhyngwladol a ariennir gan UNESCO.

- Cwblhau rhestr gyfeirio ddarluniadol o folysgiaid Dwyrain Affrica yn sgil y project hyfforddi diweddar a ariannwyd gan DEFRA, a gwaith maes ac arolygon mewn partneriaeth ag Amgueddfeydd Cenedlaethol Tansanïa a Tsieina.

- Project a ariennir gan Ymddiriedolaeth Leverhulme i wneud lluniau digidol o holl genera'r byd o 'sharpshooters' (Hemiptera: Cicadellidae), cydgysylltu a chwblhau rhestr gyfeirio newydd o Hemiptera Prydain, i'w gyhoeddi gan y Gymdeithas Entomolegol Frenhinol a'r Cyngor Astudiaethau Maes, a llawlyfr diwygiedig ar 'planthoppers' Ynysoedd Prydain.

- Project a ariennir gan Eurocat i greu rhestr unedig o'r holl folysgiaid d_r croyw yn y byd.

- Cydweithio ag Arolwg Daearegol Prydain i fapio ardal Llanymddyfri.

b) <u>Archaeolegol</u>

- Gwneud gwaith ymchwil ar ôl cloddio ar safle Mesolithig Burry Holms

- Gwaith maes ar safle'r Oes Efydd/Haearn yn Llan-maes, Bro Morgannwg

- Gwaith ymchwil a dyddio radiocarbon ar gyrff a losgwyd yn yr Oes Efydd

- Gwaith ymchwil ac adroddiadau drafft ar gyfer project y Gaer-went Rufeinig

- Cyhoeddi'r *Corpus of Early Medieval Inscribed Stones and Stone Sculpture from Wales, Vol. 1* (Gwasg Prifysgol Cymru)

- Cwblhau adroddiadau ar y fodrwy o'r canoloesoedd diweddar o Raglan, gwaith metel canoloesol yng Nghymru, a chelc o ddarnau arian Rhufeinig o Rogiet, a'u cyhoeddi.

c) <u>Celfyddyd</u>

- Gwaith ymchwil ar waith diwylliannol ac elusennol Gwendoline, Margaret a David Davies o'r 1910au i'r 1950au ar gyfer arddangosfa'r canmlwyddiant yn 2007

- Gwaith ymchwil ar yr arddangosfeydd 'Cymru wrth ei Gwaith' (AOG) a 'Wynebau Cymru' (Bodelwyddan) a seilir ar gasgliadau. Cynhelir y ddwy yn yr hydref 2005.

- Gwaith ymchwil cyn ad-drefnu arddangosfa'r balconi gan cynnwys syniadau cyfredol am y casgliadau o grochenwaith hanesyddol.
- Parhau â'r gwaith ar grochenwaith Cymreig, er mwyn paratoi cyhoeddiad 'lled-boblogaidd' ar y pwnc.

d) <u>Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol</u>

- Ymchwilio i nodweddion addurnol ac eiconograffig Eglwys Sant Teilo, ynghyd â'r eitemau litwrgaidd cysylltiedig â'r defnydd a wnaed ohonynt.

- Parhau i ymchwilio i ddatblygiad amaethyddiaeth yng Nghymru o 1945 i'r presennol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y ffermydd y daeth nifer o adeiladau AWC ohonynt: sef Kennixton, Cilewent a Hendre Wen yn 2005

- Parhau i baratoi cyfrol gynhwysfawr a diffiniol ar lên gwerin Cymru a datblygiad astudiaethau llên gwerin yng Nghymru.

- Gwaith ymchwil ar gyfer yr arddangosfa 'Cymru Ddiwydiannol trwy Gelfyddyd'

- Golygu hunangofiant Syr William Reardon Smith i'w gyhoeddi yn nes ymlaen

- Parhau â'r ymchwil i hanes cymdeithasol a diwydiannol Cymru, ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

e) Cadwraeth

- Astudiaeth i effeithiau amgylcheddau anocsig ar wahanol gasgliadau'r amgueddfa

- Gwerthuso system newydd i ddefnyddio mesuryddion golau yn arddangosiadau'r amgueddfa

- Parhau i astudio olion plaleiddiaid yn eitemau'r amgueddfa

**Atodiad C**
**Rhaglen Arddangosfeydd**

TEMPORARY EXHIBITIONS PROGRAMME as at 22nd February 2005

| | 2004 APRIL | 2004 MAY | 2004 JUNE | 2004 JULY | 2004 AUGUST | 2004 SEPTEMBER | 2004 OCTOBER | 2004 NOVEMBER | 2004 DECEMBER | 2005 JANUARY | 2005 FEBRUARY | 2005 MARCH |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NMGC Galleries 35, 36, 37 | *Artes Mundi* 7 Feb. – 18 April. 2004 | *Buried Treasure - Finding our Past* 14 May – 5 September 2004 | | | | | | Geologist Assoc. Reunion 5 – 7th November | | | *Augustus & Gwen John* 12 Feb – 15 May 2005 | |
| NMGC Galleries 8&9 | *Artes Mundi* 7 Feb. – 18 April. 2004 | | | *Raphael* 3 July – 19 Sept 2004 | | | *Turner in North Wales* 8 Oct 2004 – 9 Jan 2005 | | | | | |
| NMGC Art in Wales | *Artes Mundi* 7 Feb. – 18 April. 2004 | | *Further - Venice Biennale* 29 May –5 September 2004 | | | *Art Accustomed Eyes – John Gibbs* 18 September – 16 January 2005 | | | | | | |
| Gallery 16 | *Artes Mundi* 7 Feb. – 18 April. 2004 | | *Further - Venice Biennale* 29 May –5 September 2004 | | | Gallery rehang Sept/Oct 2004 – April 2005 | | | | | | |
| Display Area NMG | *Artes Mundi* display 17 Feb – 18 April 2004 | *CADMAD Banner Display* 27 April – 23 May 2004 | *Heather MacLennan, fossils* 8 June- 25 July | | *Wales & World Banner display* 10 Aug – 19 Sept | | *On Common Ground* 28 Sept – 31 Oct | Geologist Assoc. Reunion 5 – 7 November | *Mencap Art Project* 16 Nov 04 – 2 Jan 05 | *Outreach Schools Project* 18 Jan – 13 Feb 05 | | *NMGW & Women's Aid Project* 1 Mar – 3 April |
| Main Hall NMG | | | | *L & G Art* 13 – 25 Jul | | *Raphael Outreach Project* 13-26 Sept | | | | | | |
| E wing bridge | *You Choose!* CIB art class April – June | | | *You Choose!* Coleg Glan hafran AS level art class July – Oct 2003 | | | *You Choose! Queen of the Night* Oct – Jan 2003 | | *Creative Writing Group!* 21 Dec – 13 March | | | |
| Glanely Display | | | | | Wildlife P.o.t.Y Competition 24 Aug – 19 Sept | | | | | | | |
| Other Exhibition Areas/Displays | | *[AI] Fred Langford Edwards* (Lobby Natural History) 14 May – 5 Sept 2004 | | | | | *[AI] Carol Robertson* (Gallery 13) 4 Oct - 5 Dec | | | | | |
| | | *[AI] Susan Butler* (Galleries 3,4,7,12) May 2004 - May 2005 | | | | | | | | | | |
| | | | *RHS Bicentennial* 1 June – 1 August 2004 | | *Wildlife Photographer of the Year* 14 Aug – 19 Sept 2004 | | | | | | | |
| West Wing | | | | | | | *Whale/Turtle Close* | | | | | |
| TOURING EXHIBITIONS | | *Victorian Visions* Dixon Gallery & Gardens, Nashville 9 May – 18 July 2004 | | | | *Victorian Visions* Fort Wayne Museum of Art, Indiana 28 August – 31 October 2004 | | *Victorian Visions* Hyde Collection, Glen Falls, NY 13 Nov 2004 – 22 Jan 2005 | | | *Victorian Visions* Columbus Museum of Art, S. Carolina 4 Feb 2005 – 15 April 2005 | |
| | | | | | | | Buried Treasure - Finding our Past Manchester 1 October - 15 January 2005 | | | | Buried Treasure - Finding our Past Newcastle 12 February – 26 June 2005 | |

**Atodiad D**
**Cynllun Gweithredu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe**

# AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU

## Amlinelliad o'r rhaglen waith
## 1 Ebrill 2005 tan 31 Mawrth 2006

| ***Camau i'w Cymryd targed*** | ***Dyddiad*** |
|---|---|
| **<u>Agor yr Amgueddfa</u>** | |
| Adolygu Cynllun Busnes Gweithredol yr amgueddfa ar gyfer Blwyddyn 0 a Blwyddyn 1 | Mai |
| Penodi, cyflwyno a hyfforddi staff newydd | erbyn Medi |
| Sefydlu systemau gweinyddol ar gyfer yr amgueddfa | erbyn Mehefin |
| Comisiynu'r adeilad a'r arddangosiadau a chynnal asesiadau risg a gweithdrefnau craidd cychwynnol | erbyn Hydref |
| Llunio a chynnal rhaglen ar gyfer y "cyfnod profi" cyn agor yr amgueddfa, gwerthuso perfformiad a chanlyniadau, ac addasu cyfleusterau a gweithdrefnau os bydd angen | Gorffennaf-Hydref |
| Cynllunio a chynnal digwyddiadau agoriadol | Hydref |
| Llunio a chychwyn rhaglen gynnal a chadw ataliol | erbyn Hydref |
| Cydweithio â Dinas a Sir Abertawe i fonitro perfformiad maes parcio'r amgueddfa | o Hydref ymlaen |
| Archwilio'r ffordd y mae'r project yn cadw at yr amodau a bennwyd gan gyrff ariannu allanol | o Hydref ymlaen |
| Helpu i drosglwyddo cyfrifoldebau Cwmni Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Thîm Projectau AOCC | erbyn Rhagfyr |

**<u>Gwasanaethau Ymwelwyr</u>**

| | |
|---|---|
| Llunio, gweithredu a monitro systemau iechyd a diogelwch ar gyfer pob agwedd ar waith yr amgueddfa | erbyn Hydref |
| Sicrhau bod trefn effeithiol o wasanaethau ymwelwyr sy'n troi o gwmpas y cwsmeriaid yn cael ei sefydlu a'i chynnal | erbyn Hydref |

## Dysgu, Mynediad ac Allestyn

| | |
|---|---|
| Cydweithio â'r Adran Addysg i fanteisio i'r eithaf ar botensial AGG o ran dysgu | erbyn Medi |
| Cynnal archwiliad cwricwlwm o arddangosiadau a llunio rhaglen i'w gwerthuso | erbyn Hydref |
| Sefydlu a datblygu swyddogaeth Cynorthwywyr Orielau'r amgueddfa fel dehonglwyr | erbyn Mai |
| Datblygu strategaeth a rhaglen allestyn rhagweithiol | erbyn Hydref |
| Sefydlu system o ymgynghori â defnyddwyr a derbyn ymateb | erbyn Hydref |
| Sefydlu cyfres reolaidd o ddigwyddiadau i godi proffil adnoddau curadurol yr amgueddfa | o Hydref ymlaen |
| Llunio a gweithredu strategaeth ddigwyddiadau | erbyn Mehefin |
| Helpu Cywaith Cymru i drefnu i gael darn o waith celf gyhoeddus wedi'i gomisiynu ym mharc yr amgueddfa | tan Hydref |
| Ystyried ffyrdd o wneud y cychod hanesyddol y tu allan i'r amgueddfa'n fwy hygyrch | erbyn Mawrth 06 |

## Gweithgareddau Curadurol

| | |
|---|---|
| Sefydlu a gweithredu trefn gynnal-a-chadw ar gyfer eitemau i'w harddangos yn yr amgueddfa | erbyn Hydref |
| Llunio rhaglen arddangosfeydd ar gyfer Oriel y Golofnfa | erbyn Hydref |
| Sefydlu dolen gyswllt rhwng strategaeth gasglu eitemau cyfoes yr Adran Ddiwydiant a'r rhaglen ymchwil ar ddiwydiant cyfoes gan Awduron yr Orielau | erbyn Rhagfyr |
| Datblygu rhaglen dreigl o arddangosiadau ar gyfer yr Oriel Torri Tir Newydd, gan arddangos gwaith arloesol ym maes diwydiant cyfoes Cymru | erbyn Mawrth 06 |
| Datblygu rhaglen ar gyfer arddangos eitemau allweddol o gasgliadau Amgueddfeydd Abertawe dros dro | erbyn Gwanwyn 06 |
| Cynnal arddangosfa ar Nelson, Trafalgar a Chymru | erbyn 21 Hydref |

## Gweithgareddau Masnachol

| | |
|---|---|
| Cydweithio â Mentrau AOCC i fanteisio i'r eithaf ar botensial masnachol yr amgueddfa a sicrhau ei bod yn cyrraedd y targedau incwm | parhaus |
| Cydweithio â Thîm Datblygu AOCC i annog y gwaith codi arian a noddi i barhau | parhaus |

## Marchnata

| | |
|---|---|
| Gweithredu’r cynllun marchnata cyfredol fel y gellir denu cynifer o ymwelwyr â phosibl | parhaus |
| Integreiddio gwefan Cwmni Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a gwefan AOCC a chynnwys rhagor o wybodaeth ynddi | erbyn Hydref |
| Ymgeisio am wobrau cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer yr amgueddfa | o fis Hydref ymlaen |
| Datblygu cynllun marchnata ar gyfer 2006/07 | erbyn mis Tachwedd |

## Gweithio mewn Partneriaeth

| | |
|---|---|
| Datblygu partneriaeth yr amgueddfa ag Amgueddfeydd Abertawe | parhaus |
| Helpu Prifysgol Abertawe i ddatblygu cwrs dehongli Amgueddfeydd a Threftadaeth | erbyn diwedd 2005 |
| Trafod gyda sefydliadau treftadaeth rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol | parhaus |